

# CADNANT

PLANNING

**TIR I'R GOGLEDD O Y GARNEDD,  
LLANFAIRPWLL  
ASESIAD O'R EFFAITH AR YR IAITH GYMRAEG  
CLWYDALYN HOUSING LTD & DU  
CONSTRUCTION LTD  
IONAWR 2024  
2020.103\_04**

---

**Conwy** | 20 Tŷ Connaught, Parc Busnes Riverside, Ffordd Benarth, Conwy LL32 8UB

**Chester** | 1 Alford House, Bell Meadow Business Park, Pulford, Chester CH4 9EP

# CADNANT

PLANNING

Statws yr adroddiad:	Drafft cyhoeddwyd ar gyfer PAC	V1.0	Ionawr 2024
Awdur:	Sarinah Farooq MPlan (Anrh)		
Gwiriwr:	Sioned Edwards MRTPI		
Adolygydd:	Sioned Edwards MRTPI		
Cymeradwywyd gan:	Sioned Edwards MRTPI		
Rheoli dogfennau:	CAD.05		

© Ni chaniateir copïo nac atgynhyrchu cynnwys y ddogfen hon yn gyfan gwbl neu'n rhannol heb ganiatâd ysgrifenedig Cadnant Planning Ltd. Atgynhyrchir yr holl gynlluniau o Fap Arolwg Ordnans gyda chaniatâd Rheolwr HMSO, Cedwir Hawlfraint y Goron, Rhif Trwydded 100020449



Mae Cadnant Planning wedi'u hachredu gan safon ISO 9001:2015 ac yn gweithio yn unol â hi (Y Biwro Asesu Prydeinig)

## Cynnwys

1. Cyflwyniad .....	<b>Error! Bookmark not defined.</b>
2. Datblygiad arfaethedig.....	<b>Error! Bookmark not defined.</b>
3. Deddfwriaeth, polisi a chanllawiau.....	<b>Error! Bookmark not defined.</b>
4. Methodoleg .....	<b>Error! Bookmark not defined.</b>
5. Aseiad o'r Effaith ar yr Iaith Gymraeg .....	<b>Error! Bookmark not defined.</b>
6. Aseiad cynaliadwyedd .....	<b>Error! Bookmark not defined.</b>
7. Mesurau lliniaru a gwella .....	<b>Error! Bookmark not defined.</b>
8. Casgliad.....	<b>Error! Bookmark not defined.</b>
Atodiad A.....	<b>Error! Bookmark not defined.</b>

# 1. Cyflwyniad

- 1.1 Mae'r Asesiad hwn o'r Effaith ar yr Iaith Gymraeg yn cyd-fynd â chais gan ClwydAlyn Housing Ltd a DU Construction Ltd (yr ymgeisydd), am gais cynllunio llawn ar gyfer codi 27 o anheddau fforddiadwy, adeiladu ffordd fynediad fewnol, dargyfeirio Hawl Tramwy Cyhoeddus, creu bwnd tirweddu, codi ffens acwstig a gwaith cysylltiedig ar dir i'r gogledd o Y Garnedd, Llanfairpwll.
- 1.2 Mae'r cais hwn yn ail-gyflwyno cais cynllunio FPL/2021/231 a wrthodwyd ar 02 Mawrth 2023 ar y sail nad oedd digon o wybodaeth wedi'i darparu mewn perthynas â threfniadau draenio dŵr wyneb arfaethedig i ddangos na fyddai'r cynnig yn cael unrhyw effeithiau niweidiol nac yn peri risg annerbyniol i'r amgylchedd dŵr.
- 1.3 Mae'r cynigion bellach wedi cael eu diwygio ac mae cytundeb ar gyfer gollwng dŵr wyneb i'r cwrs dŵr cyfagos, yn ne orllewin y safle, wedi cael ei sicrhau, a fydd yn golygu darparu cysylltiad ar draws y tir cyfagos sy'n eiddo i'r Cyngor Cymuned gyda'r pwynt gollwng o dir sy'n eiddo i dirfeddiannwr preifat. Byddai'r cysylltiad dŵr wyneb yn golygu defnyddio carthffos a bod Dŵr Cymru Welsh Water (DCWW) yn mabwysiadu'r rhwydwaith dŵr wyneb arfaethedig ar y safle.
- 1.4 Byddai'r anheddau arfaethedig yn cael eu datblygu gan gwmni DU Construction Ltd fel contractwr lleol ar gyfer ClwydAlyn Housing Ltd, Landlord Cymdeithasol Cofrestredig lleol a fyddai'n berchen ar yr holl eiddo ac yn eu rheoli fel anheddau fforddiadwy.
- 1.5 Mae'r AEIG hwn yn cyd-fynd â'r Canllawiau Cynllunio Atodol (CCA) sydd newydd gael eu mabwysiadu gan Gyngor Sir Ynys Môn a Chyngor Gwynedd ar gyfer Cynnal a Chreu Cymunedau Nodedig a Chynaliadwy (Gorffennaf 2019). Mae'r CCA yn nodi methodoleg benodol y mae'n rhaid i bob Cynllun Iaith Lleol ei dilyn er mwyn dangos sut bydd y datblygiad arfaethedig yn effeithio ar y gymuned leol a'r ardal leol.
- 1.6 Yn unol ag adran 38(6) Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol (2004) mae angen sicrhau bod ceisiadau cynllunio yn cydymffurfio â'r Cynllun Datblygu mabwysiedig oni bai bod ystyriaethau cynllunio perthnasol yn nodi fel arall. Gall ystyriaethau cynllunio eraill gynnwys polisi cynllunio cenedlaethol ynghyd â Nodyn Cyngor Technegol (NCT).
- 1.7 Mabwysiadwyd y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd ar 31 Gorffennaf 2017 sy'n ffurfio'r cynllun datblygu ar gyfer ardaloedd Awdurdod Cynllunio Lleol Gwynedd a Môn a bydd yn sail i benderfyniadau ar gynllunio defnydd tir yn yr ardal hon.

## Asesiad o'r Effaith ar yr Iaith Gymraeg

- 1.8 Mae'r Gymraeg yn chwarae rhan bwysig ym mywyd cymdeithasol, diwylliannol ac economaidd trigolion ac ymwelwyr ardal y Cynllun. Pan gynigir datblygiad, rhaid ystyried gwella a diogelu'r iaith a'i diwylliant. Mae Polisi Strategol PS1 'Y Gymraeg a'i Diwylliant' (PS1) yn nodi'r cyd-destun ar gyfer asesu effaith bosibl cynigion ar yr iaith a'i diwylliant.
- 1.9 O ran datblygiad preswyl mae Maen prawf 2 Polisi PS1 'Yr Iaith Gymraeg a'i Diwylliant' yn nodi, lle mae datblygiad ar hap-safle annisgwyl ar gyfer datblygiad tai ar raddfa fawr, y dylai Asesiad o'r Effaith ar yr Iaith Gymraeg gael ei atodi i gais cynllunio.
- 1.10 Ar ôl mabwysiadu CCA 'Cynnal a Chreu Cymunedau Nodedig a Chynaliadwy' ym mis Gorffennaf 2019, mae'r AEIG hwn yn cydymffurfio â gofynion y CCA newydd.
- 1.11 Bydd disgwyl i bob cynnig, beth bynnag fo'u math, eu maint neu eu lleoliad, gydymffurfio â maen prawf 4 a 5 PS1, sef gofyniad cynllun arwyddion dwyieithog i ddelio â'r holl arwyddion gweithredol sydd ar gael i'r cyhoedd. Disgwylir y bydd enwau Cymraeg presennol yn cael eu cadw a bod enwau Cymraeg priodol yn cael eu defnyddio ar gyfer datblygiadau newydd.
- 1.12 Mae maen prawf 3 o PS1 yn datgan y bydd y Cynghorau yn gwrthod cynigion a fyddai'n achosi niwed sylweddol i gymeriad a chydbwysedd iaith cymuned na ellir eu hosgoi na'u lliniaru'n briodol gan fecanweithiau cynllunio priodol;
- 1.13 Dylid darllen y Datganiad hwn gan roi sylw llawn i ddogfennau cysylltiedig y cais.
- 1.14 Mae'r CCA yn cynghori y dylai unigolyn cymwys baratoi Asesiad o'r Effaith ar yr Iaith Gymraeg. Mae'r AEIG hwn wedi cael ei baratoi gan Sioned Edwards o Cadnant Planning Ltd. Mae datganiad sy'n nodi profiad a chymwysterau'r awdur ar gael yn atodiad A yr AEIG hwn.

## 2. Datblygiad arfaethedig

- 2.1 Mae'r cais yn ymwneud â chynllun preswyl sy'n cynnwys 27 o anheddau fforddiadwy, adeiladu ffordd fynediad fewnol, dargyfeirio Hawl Tramwy Cyhoeddus, creu bwnd tirweddu, codi ffens acwstig a gwaith cysylltiedig.
- 2.2 Byddai'r anheddau fforddiadwy arfaethedig yn cynnwys y cymysgedd canlynol:
- Pedwar rhandy un ystafell wely;
  - 14 o dai pâr dwy ystafell wely;
  - Chwe thŷ pâr tair ystafell wely; a
  - Thri thŷ sengl pedair ystafell wely.
- 2.3 Mae cynllun y safle'n cynnwys anheddau preswyl ar hyd y ffin ddeheuol i'r anheddau presennol yn Y Garnedd. Byddai anheddau preswyl hefyd yn cael eu lleoli gyferbyn â'i gilydd a'r ffordd fynediad fewnol rhyngddynt.
- 2.4 Byddai gan bob annedd le parcio i'r tu blaen/ochr gydag ardal fach o ardd flaen/cefn gyda'r brif ardd wedi'i lleoli yn y cefn. Byddai patio a sied gardd yn cael eu darparu ym mhob plot. Byddai'r holl anheddau a gynigir yn anheddau fforddiadwy a byddent yn aros felly am byth.
- 2.5 Cyfeiriwch at y Datganiad Dylunio, Mynediad a Chynllunio a gyflwynwyd gyda'r cais hwn i gael rhagor o fanylion am y datblygiad arfaethedig.

### 3. Deddfwriaeth, polisi a chanllawiau

- 3.1 Mae'r Gymraeg yn ystyriaeth gynllunio berthnasol wrth benderfynu ar geisiadau cynllunio yng Nghymru ac fe'i cydnabyddir mewn deddfwriaeth berthnasol, fframweithiau a strategaethau polisi cynllunio lleol a chenedlaethol. Darperir trosolwg yn Nhablau 3.1-3.6.

**Tabl 3.1 Deddfwriaeth cynllunio ac iaith genedlaethol**

Dogfen	Crynodeb
Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 (Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 2011)	Roedd <i>Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011</i> yn gwneud darpariaethau ar gyfer statws swyddogol y Gymraeg yng Nghymru ac yn creu fframwaith deddfwriaethol newydd ar gyfer y Gymraeg.
<i>Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015</i> (Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 2015)	Mae'n gosod nodau llesiant uchelgeisiol a hirdymor i adlewyrchu'r Gymru y mae pobl Cymru am fyw ynnddi, nawr ac yn y dyfodol. Un o'i nodau yw bod yn Gymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu, lle mae cymdeithas yn hyrwyddo ac yn gwarchod diwylliant, treftadaeth a'r iaith Gymraeg. Mae'n garreg filltir bwysig i'r iaith, gan danlinellu ei statws swyddogol.
Deddf Cynllunio (Cymru) 2015 (Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 2015)	Mae adrannau 11 a 31 y Ddeddf yn ymwneud â'r Gymraeg. Mae adran 31 o'r Ddeddf yn egluro y gall effeithiau ar y Gymraeg fod yn ystyriaeth wrth benderfynu ar geisiadau cynllunio, i'r graddau y mae'n berthnasol i'r cais. Mae adran 11 y Ddeddf yn ei gwneud yn orfodol i bob awdurdod cynllunio lleol ystyried effaith eu cynlluniau datblygu ar y Gymraeg, drwy gynnal asesiad priodol fel rhan o'u Harfarniad Cynaliadwyedd o'r cynllun.

**Tabl 3.2 Polisi cynllunio cenedlaethol a fframwaith polisi iaith**

Dogfen	Crynodeb
Polisi Cynllunio Cymru (Argraffiad 11) (Llywodraeth Cymru, 2021)	Mae Polisi Cynllunio Cymru yn cydnabod bod y Gymraeg yn rhan o wead cymdeithasol a diwylliannol Cymru a bod Llywodraeth Cymru wedi ymrwmo i sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei chefnogi a'i hannog i ffynnu fel iaith i lawer o gymunedau ledled Cymru.
Nodyn Cyngor Technegol (NCT) 20 – Cynllunio a'r	Mae NCT 20 yn rhoi arweiniad ar sut mae'r system gynllunio yn ystyried goblygiadau i'r Gymraeg wrth baratoi CDLlau a

## Asesiad o'r Effaith ar yr Iaith Gymraeg

Iaith Gymraeg (Llywodraeth Cymru, 2017)	<p>gwneud penderfyniadau. Dylai'r ACLI ystyried anghenion a lles y Gymraeg, ac wrth wneud hynny, dylai gyfrannu at ei lles. Mae newidiadau diweddar a gyflwynwyd yn y fersiwn presennol o NCT 20 yn ganlyniad i ddod â darpariaethau a gynhwysir yn Neddf Cynllunio (Cymru) 2015 i rym.</p> <p>Mae'r prif newidiadau yn ymwneud â'r materion canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Y cysylltiad rhwng cynllunio ar gyfer y Gymraeg drwy gynllunio defnydd tir a chynllunio cymunedol;</li> <li>• Rhoi eglurhad y gall y rhai sy'n gwneud penderfyniadau ystyried yr iaith os yw'n berthnasol i'r cais;</li> <li>• Caniatáu asesiadau o'r effaith ar iaith mewn rhai amgylchiadau penodol.</li> </ul>
Cynllun Gofodol Cymru (diweddariad 2008) (Llywodraeth Cymru, 2008)	<p>Mae Cynllun Gofodol Cymru yn cyflwyno fframwaith strategol ar gyfer cyfarwyddo datblygu ac ymyriadau polisi yng Nghymru yn y dyfodol. Mae'n nodi bod gan "yr iaith Gymraeg rôl sylweddol i'w chwarae yn ein cymunedau a dylid ei hyrwyddo fel rhinwedd gadarnhaol yn yr ardal".</p>

**Tabl 2.3 Strategaethau iaith cenedlaethol**

Dogfen	Crynodeb
<i>Miliwn o siaradwyr (Llywodraeth Cymru, 2017)</i>	<p>Lansiwyd y strategaeth ar 10 Gorffennaf 2017 ac mae'n nodi blaenoriaethau strategol Llywodraeth Cymru ar sut i gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.</p> <p>Mae tair thema strategol wedi'u nodi yn y strategaeth i gyflawni ei gweledigaeth:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg;</li> <li>• Cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg; a</li> <li>• Chreu amodau ffafriol – seilwaith a chyd-destun.</li> </ul>

**Tabl 3.4 Polisiâu cynllunio lleol**

Dogfen	Crynodeb
<i>Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Ynys Môn a Gwynedd (2017)</i>	<p>Polisi PS1 yw'r polisi allweddol sy'n ymwneud â'r Gymraeg, ond mae'n rhan annatod o bob polisi drwy'r cynllun. Mae'r iaith Gymraeg a pholisiâu eraill yn hyrwyddo gwarchod a gwella'r Gymraeg. Mae'r polisiâu'n ceisio hwyluso'r math o ddatblygiad sy'n gallu creu'r amgylchiadau cywir i gyfrannu at gynnal a chreu cymunedau Cymraeg eu hiaith.</p>



## Asesiad o'r Effaith ar yr Iaith Gymraeg

	<p>Polisi PS 1: Mae 'Yr Iaith Gymraeg a'i Diwylliant' yn nodi;  <i>"Bydd y Cynghorau yn hyrwyddo ac yn cefnogi'r defnydd o'r Gymraeg yn ardal y Cynllun. Bydd hynny yn cael ei gyflawni drwy:</i></p> <ol style="list-style-type: none"> <li><i>1. Fynnu Datganiad iaith Gymraeg, a fydd yn gwarchod, yn hyrwyddo ac yn cyfoethogi'r iaith Gymraeg, lle mae'r datblygiad arfaethedig yn perthyn i un o'r categorïau canlynol:</i> <ol style="list-style-type: none"> <li><i>a. Datblygiad manwerthu, diwydiannol neu fasnachol sy'n cyflogi mwy na 50 o weithwyr a/neu gydag arwynebedd o 1,000 metr sgwâr neu fwy; neu</i></li> <li><i>b. Datblygiad preswyl a fydd yn darparu mwy yn unigol neu ar y cyd na'r ddarpariaeth dai ddangosol a nodir ar gyfer y setliad ym Mholisiau TAI 1 – TAI 6; neu</i></li> <li><i>c. Ddatblygiad preswyl ar gyfer 5 neu fwy o unedau tai ar safleoedd a ddyrannwyd neu hap-safleoedd o fewn ffiniau datblygu nad ydynt yn mynd i'r afael â thystiolaeth o'r angen a'r galw am dai a gofnodwyd mewn Asesiadau o'r Farchnad Dai a ffynonellau tystiolaeth lleol perthnasol eraill.</i></li> </ol> </li> <li><i>2. Mynnu Asesiad o'r Effaith ar yr Iaith Gymraeg, a fydd yn nodi sut bydd y datblygiad arfaethedig yn diogelu, yn hyrwyddo ac yn cyfoethogi'r Gymraeg, lle mae'r datblygiad arfaethedig ar hap-safle annisgwyl ar gyfer datblygiad tai ar raddfa fawr neu ddatblygiad cyflogaeth ar raddfa fawr a fyddai'n arwain at lif sylweddol o weithlu;</i></li> <li><i>3. Gwrthod cynigion a fyddai'n achosi niwed sylweddol i gymeriad a chydbwysedd iaith cymuned na ellir eu hosgoi na'u lliniaru'n briodol gan fecanweithiau cynllunio priodol;</i></li> <li><i>4. Mynnu Cynllun Arwyddion dwyieithog i ddelio â'r holl arwyddion gweithredol cyhoeddus sy'n cael eu cynnig mewn cais cynllunio gan gyrrff cyhoeddus a chan gwmnïau masnachol a busnes;</i></li> <li><i>5. Disgwylir i enwau Cymraeg gael eu defnyddio ar gyfer datblygiadau newydd, enwau tai a strydoedd."</i></li> </ol>
<p>Cyngor  Gwynedd/Cynghorau Ynys  Môn Canllawiau Cynllunio  Atodol (CCA) Cynnal a  Chreu Cymunedau  Nodedig a Chynaliadwy  (Gorffennaf 2019)</p>	<p>Mae'n rhoi arweiniad ar sut y bydd yr awdurdod cynllunio yn gwneud penderfyniadau ynghylch effaith datblygiadau arfaethedig ar y Gymraeg. Nodir methodoleg benodol yn y ddogfen y dylai Datganiadau Iaith Gymraeg gadw atynt wrth asesu effaith datblygiad ar y gymuned leol a'r ardal leol.</p>

## Asesiad o'r Effaith ar yr Iaith Gymraeg

**Tabl 3.5 Strategaethau Lleol**

Dogfen	Crynodeb
<p><i>Cynllun Hybu'r Gymraeg ar gyfer Gwynedd 2018-2023 (hunaniaith, 2018)</i></p>	<p>Mae Cynllun Cyngor Gwynedd 2018-23 yn gosod, fel un o'i amcanion llesiant, y nodau i sicrhau bod pob preswlydd yn gallu byw mewn cymuned lle mae'r Gymraeg yn rhan naturiol o fywyd. Mae'r Strategaeth hon yn adeiladu ar y gwaith a wnaed ar Strategaeth Iaith Gymraeg Gwynedd 2014-18. Mae'n nodi'r cyfleoedd sydd ar gael i hybu a chynyddu'r defnydd o'r Gymraeg fel rhan naturiol o fywyd bob dydd yn y sir. Bydd y Strategaeth hefyd yn cynnig syniadau ar sut y gall Gwynedd gyfrannu at Strategaeth Iaith Llywodraeth Cymru: Cymraeg 2050, sy'n gosod y targed o gael miliwn o siaradwyr Cymraeg yng Nghymru erbyn 2050.</p> <p>Nodir pum maes blaenoriaeth yn y cynllun, sy'n cynnwys:</p> <ol style="list-style-type: none"> <li>1. iaith y cartref;</li> <li>2. iaith dysgu;</li> <li>3. iaith gwaith a gwasanaethau;</li> <li>4. iaith y gymuned; ac</li> <li>5. Ymchwil a thechnoleg – gosod y sylfeini cywir.</li> </ol> <p>Mae'r strategaeth iaith yn nodi chwe maes strategol sy'n sail i'r strategaeth, sy'n cynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• y teulu;</li> <li>• plant a phobl ifanc;</li> <li>• cymunedau;</li> <li>• Gwasanaethau Iaith Gymraeg;</li> <li>• y gweithle; a</li> <li>• seilwaith.</li> </ul> <p>Nod y Cynllun yw nodi'r cyfeiriad strategol ar gyfer hyrwyddo'r Gymraeg ar draws Gwynedd dros y pum mlynedd nesaf. Dymuniad y Cyngor ar gyfer y tymor hir yw gweld canran y siaradwyr Cymraeg yn y sir yn codi unwaith eto yn uwch na'r rhicyn 70%, ond mae'n cydnabod yr heriau amrywiol a niferus a fydd ar y ffordd i gyflawni'r nod hwnnw.</p>
<p><i>Cynllun Llesiant Gwynedd a Môn (Cyngor Sir Ynys Môn, 2018)</i></p>	<p>Mae'r cynllun yn canolbwyntio ar y saith nod llesiant ac mae'r pum ffordd o weithio wedi cael eu dylunio i gefnogi cyrff cyhoeddus i ddiwallu anghenion presennol eu cymunedau a sicrhau nad yw penderfyniadau heddiw yn niweidio cenedlaethau'r dyfodol.</p>

## Asesiad o'r Effaith ar yr Iaith Gymraeg

	<p>Mae gwarchod a hyrwyddo'r Gymraeg yn rhan o'r cynllun datblygu. Mae'r Cynllun yn cydnabod pwysigrwydd y Gymraeg o ran gwneuthuriad cymdeithasol a hunaniaeth ddiwylliannol yr ardal. Rhaid i ni sicrhau bod preswylwyr yn gallu ac yn dewis byw eu bywydau drwy gyfrwng y Gymraeg a'u bod yn gallu cael gafael ar wasanaethau a gweithgareddau cymunedol yn Gymraeg. Felly, mae hyn yn flaenoriaeth ar gyfer cydweithio yn y dyfodol.</p> <p>Nod yr amcanion yw cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg a hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg fel dewis iaith cyfathrebu rhwng cyrff cyhoeddus ar draws y ddwy sir.</p> <p>Bydd y Gymraeg yn edau aur sy'n rhedeg drwy'r cynllun.</p>
--	---


**Tabl 2.6 Canllawiau perthnasol eraill**

Dogfen	Crynodeb
<i>Cynllunio a'r Iaith Gymraeg: Y Ffordd Ymlaen</i> (Bwrdd yr Iaith Gymraeg, Ffederasiwn Adeiladwyr Cartrefi a Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2005)	<p>Y ddogfen hon yw'r gwaith a gwblhawyd gan gonsortwm o sefydliadau sy'n cynnwys awdurdodau lleol, Bwrdd yr Iaith Gymraeg, y Ffederasiwn Adeiladwyr Tai a Llywodraeth Cymru.</p> <p>Mae'r ddogfen yn cynrychioli ymdrechion ar y cyd yr holl bartneriaid cysylltiedig sydd â diddordeb mewn datblygu gwell dealltwriaeth o'r berthynas rhwng cynllunio defnydd tir a'r iaith Gymraeg er mwyn hyrwyddo lles yr iaith a chymeriad diwylliannol cymunedau lleol. Nid yw'r ddogfen yn cynrychioli barn polisi cynllunio unrhyw un o'r cyrff sy'n cyfranogi.</p> <p>Mae'r ddogfen yn darparu canllawiau arfer gorau.</p>

## 4. Methodoleg

- 4.1 Mae'r fethodoleg ar gyfer ystyried effaith y datblygiad arfaethedig ar y Gymraeg a'i diwylliant yn seiliedig ar y canllawiau a ddarperir yn CCA mabwysiedig Cyngor Sir Ynys Môn a Chyngor Gwynedd mewn perthynas â Chynnal a Chreu Cymunedau Nodedig a Chynaliadwy.
- 4.2 Mae Diagram 3 yr CCA yn darparu siart llif sy'n nodi proses wyth cam ar gyfer llunio datblygiad, ei asesu a gwneud penderfyniadau. Mae Ffigur 4.1 isod yn cynnwys detholiad o'r siart llif.

**Ffigur 4.1 Detholiad o siart llif (Diagram 3 y CCA mabwysiedig)**



- 4.3 Byddai disgwyl i'r ymgeisydd ymgymryd â Cham 1 i 5 cyn cyflwyno'r cais cynllunio. Mae manylion ynghylch sut mae'r cynnig yn cydymffurfio â Chamau 1 i 5 wedi'u nodi isod ac yn yr AEIG hwn.

### Cam 1: Sgrinio'r datblygiad

- 4.4 Mae'r CCA mabwysiedig yn darparu Diagram 4 er mwyn egluro'r broses o sgrinio'r datblygiad arfaethedig. Mae'n pwysleisio'r fantais o ymgysylltu ac ymgynghori â'r gwasanaeth cynllunio a rhanddeiliaid eraill yn ystod y cam cyn ymgeisio mewn ffordd sy'n gymesur â maint a math y datblygiad arfaethedig.

## Asesiad o'r Effaith ar yr Iaith Gymraeg

- 4.5 Mae trafodaethau cyn ymgeisio wedi cael eu cynnal cyn cyflwyno'r cais lle cadarnhawyd, gan fod y cynnig yn ymwneud â chodi 27 o anheddau fforddiadwy (datblygiad mawr) ar safle eithriad y tu allan i ffin y datblygiad, y byddai angen cyflwyno Asesiad o'r Effaith ar yr Iaith Gymraeg gyda'r cais.
- 4.6 Gan fod y cais yn ymwneud â datblygiad mawr, mae ymgynghoriad cyn ymgeisio yn cael ei gynnal cyn cyflwyno cais cynllunio sy'n rhoi cyfle i ymgynghoreion ac aelodau o'r cyhoedd roi sylwadau ar y datblygiad arfaethedig ac Asesiad o'r Effaith ar yr Iaith Gymraeg drafft. Mae hyn yn cynnwys digwyddiad ymgynghori cyhoeddus i alluogi ymgysylltu ac ymgynghori â'r gymuned leol.
- 4.7 Ystyrir bod maint yr ymgysylltu a wnaed cyn cyflwyno'r cais cynllunio hwn yn gymesur ar gyfer y cynnig.
- 4.8 Ar sail y manylion a nodir uchod, mae'r datblygiad arfaethedig wedi cael ei sgrinio yn unol â'r canllawiau a nodir yn y CCA mabwysiedig.

## Cam 2: Paratoi Cynllun Iaith Gymraeg, Asesiad o'r Effaith ar yr Iaith Gymraeg neu dystiolaeth ategol

- 4.9 Penderfynwyd bod angen Asesiad o'r Effaith ar yr Iaith Gymraeg gyda'r cais cynllunio ac mae adrannau 5 i 8 y ddogfen hon yn cyflwyno'r Asesiad o'r Effaith ar yr Iaith Gymraeg.
- 4.10 Er mwyn asesu'r datblygiad arfaethedig yn erbyn Amcan yr Asesiad Cynaliadwyedd sy'n berthnasol i'r Gymraeg, mae Atodiad 8 y CCA yn ei gwneud yn ofynnol i'r AEIG gynnwys matrices wedi'i gwblhau yn unol â thabl 8.3 yr CCA.
- 4.11 Mae'r CCA yn darparu matrices risg/buddion enghreifftiol (ffigur 8.1 y CCA) y gellir ei ddefnyddio i nodi'r risg a thebygolrwydd yr effeithiau. Mae gennym bryderon ynghylch y matrices risg enghreifftiol gan ei fod yn caniatáu nodi effeithiau negyddol datblygiad arfaethedig yn unig ac nid yw'n caniatáu nodi effeithiau niwtral neu fanteisiol. Yng ngoleuni hyn, at ddibenion yr AEIG hwn, rydym wedi defnyddio matrices risg/buddion gwahanol, sef diwygiad i fersiwn cynharach o ffigur 8.1 y CCA a gynhwyswyd yn fersiwn y ddogfen ar ôl yr Ymgynghoriad. Nid yw'n glir pam mae'r Matrics Risg/Buddion enghreifftiol yn y CCA mabwysiedig wedi cael ei ddiwygio i'r fath raddau lle na nodir unrhyw effeithiau manteisiol. Mae'r AEIG hwn yn seiliedig ar y matrices risg/buddion a nodir yn Ffigur 4.2.

## Asesiad o'r Effaith ar yr Iaith Gymraeg

				→ Effaith dros 20 mlynedd →									
				Pob siaradwr yn yr ardal a ddewiswyd	Effaith fanteisiol arwyddocaol	Effaith fanteisiol sylweddol	Effaith fanteisiol ganolig	Effaith fanteisiol fach	Niwtral	Effaith niweidiol fach	Effaith niweidiol ganolig	Effaith niweidiol sylweddol	Effaith niweidiol arwyddocaol
					Cynnydd o 10% neu ragor yn fwy na'r siaradwyr rhagamcanol (busnes fel arfer)	Cynnydd o dros 5% i 10% yn fwy na'r siaradwyr rhagamcanol (busnes fel arfer)	Cynnydd o dros 2% i 5% yn fwy na'r siaradwyr rhagamcanol (busnes fel arfer)	Cynnydd o hyd at 2% yn fwy na'r siaradwyr rhagamcanol (busnes fel arfer)	Dim newid i'r siaradwyr rhagamcanol (busnes fel arfer)	Gostyngiad o hyd at 2% yn is na'r siaradwyr rhagamcanol (busnes fel arfer)	Gostyngiad o dros 2% i 5% yn is na'r siaradwyr rhagamcanol (busnes fel arfer)	Gostyngiad o dros 5% i 10% yn is na'r siaradwyr rhagamcanol (busnes fel arfer)	Gostyngiad o 10% neu fwy yn is na'r siaradwyr rhagamcanol (busnes fel arfer)
<b>Tebygolrwydd</b>	<b>Tebygolrwydd.</b>	<b>Amllder</b>	<b>Tebygolrwydd</b>		4	3	2	1	0	-1	-2	-3	-4
	Byddai disgwyl iddo ddigwydd ym mhob datblygiad tebyg bron	Hanes o hynny'n digwydd 9 gwaith allan o 10 yn y (dyweder 20) mlynedd diwethaf	4	Bron yn sicr	16	12	8	4	0	-4	-8	-12	-16
	Byddai disgwyl iddo ddigwydd yn y rhan fwyaf o ddatblygiadau tebyg.	Hanes o hynny'n digwydd 5-8 gwaith allan o 10 yn y (dyweder 20) mlynedd diwethaf	3	Tebygol	12	9	6	3	0	-3	-6	-9	-12
	Byddai disgwyl iddo ddigwydd yn y lleiafrif o ddatblygiadau tebyg.	Hanes o hynny'n digwydd 2-4 gwaith allan o 10 yn y (dyweder	2	Posibl	8	6	4	2	0	-2	-4	-6	-8

### Aseiad o'r Effaith ar yr Iaith Gymraeg

		20) mlynedd diwethaf											
	Byddai disgwyl i hyn ddigwydd mewn nifer fach iawn o ddatblygiadau tebyg	Hanes o hynny'n digwydd 1 gwaith allan o 10 yn y (dyweder 20) mlynedd diwethaf	1	Annhebygol	4	3	2	1	0	-1	-2	-3	-4

**Ffigur 4.2** *Matrics risg/buddion i'w ddefnyddio yn yr AEIG hwn*

## Cam 3: Nodi mesurau lliniaru/gwella a Cham 4: Paratoi strategaeth gan gynnwys cynllun gweithredu

- 4.12 Mae'r AEIG a gyflwynir yn adrannau 5 i 8 y ddogfen hon yn dangos yr ystyriaeth a roddwyd i effaith bosibl y datblygiad ar y gymuned leol a'r Gymraeg. Mae Adran 7 yn cyflwyno mesurau i liniaru effeithiau niweidiol a gwella effeithiau manteisiol (lle ystyrir bod y rhain yn angenrheidiol) ar sail ystyried yr effeithiau.
- 4.13 Pan ystyrir bod angen mesurau lliniaru a/neu wella, cyflwynir strategaeth. Os yw'n berthnasol, cyflwynir hyn yn adran 7 y ddogfen hon.


## Cam 5: Cyflwyno'r cais cynllunio

- 4.14 Cyflwynir cais cynllunio maes o law, yn dilyn yr ymgynghoriad cyn ymgeisio sy'n cael ei gynnal ar hyn o bryd.

Mae methodoleg fanylach ar gyfer cynnal Asesiad o'r Effaith ar yr Iaith Gymraeg wedi'i nodi yn atodiad 8 y CCA mabwysiedig. Roedd y gwaith o baratoi'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd yn destun prosesau Asesu Cynaliadwyedd, a oedd yn cynnwys Asesiad Amgylcheddol Strategol. O safbwynt y Gymraeg, dylanwadwyd ar yr Asesiad Cynaliadwyedd gan yr Asesiad o'r Effaith ar yr Iaith Gymraeg. Yn debyg i'r gwaith sy'n gysylltiedig â chynnal Asesiad Cynaliadwyedd, Asesiad Amgylcheddol Strategol, Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol ar gyfer prosiectau unigol, mae 3 cham i'w dilyn yn y broses o gynnal Asesiad o'r Effaith ar yr Iaith Gymraeg ar gyfer y datblygiad arfaethedig perthnasol (gweler y diagram yn Ffigur 4.3).



*Ffigur 4.3 Rhan o ddiagram o'r CCA sy'n nodi proses tri cham ar gyfer cynnal AEIG*




## 5. Asesiad o'r Effaith ar yr Iaith Gymraeg

### Cwmpasu'r gwaith

#### Ardal o ddylanwad

- 5.1 Mae'r fethodoleg a nodir yn y CCA yn gofyn am ystyried demograffeg leol yr ardal lle mae'r safle.
- 5.2 Mae'r CCA yn cynghori y dylid nodi ardal o ddylanwad at ddibenion yr asesiad.
- 5.3 Mae'r datblygiad arfaethedig yn Llanfairpwll, sy'n cynnwys wardiau Braint a Gwyngyll. Mae safle'r cais arfaethedig ei hun yn ward Braint; fodd bynnag, ystyrir ei bod yn briodol cynnwys data o'r ddwy ward i roi trosolwg o Lanfairpwll yn ei gyfanrwydd. Felly, mae data o ward Gwyngyll wedi cael ei gynnwys yn y data sylfaenol a ddarperir isod.
- 5.4 Gweler Ffigur 5.1 sy'n nodi ffiniau'r wardiau.

*Ffigur 5.1 Map yn dangos ffiniau wardiau Braint a Gwyngyll, yn ogystal â lleoliad safle'r cais*



5.5 Mae'r data sylfaenol a ddarperir isod hefyd yn cynnwys data ar gyfer Sir Ynys Môn a Chymru at ddibenion cymharu.

## Proffil y boblogaeth

### *Poblogaeth: 2011 a 2021*

5.6 Dengys Tabl 5.1 gyfanswm poblogaeth wardiau Braint a Gwyngyll, yn ogystal ag Ynys Môn yn gyffredinol ar gyfer y blynyddoedd 2011 a 2021. Dangosir y newidiadau fel rhifau ac mewn canrannau.

*Tabl 5.1 Niferoedd, newid mewn nifer a chanran y newid ym mhoblogaeth Braint, Gwyngyll ac Ynys Môn*

Ardal	2011	2021	Newid mewn Nifer	Newid mewn %
Braint	1519	1449	-70	-4.7%
Gwyngyll	1588	1463	-125	-7.9%

5.7 Fel y gwelir yn Nhabl 5.1, gostyngodd cyfanswm poblogaeth y ddwy ward yn Llanfairpwll rhwng 2011 a 2021, sy'n unol â phatrwm y gostyngiad ym mhoblogaeth Ynys Môn dros yr un cyfnod. Roedd y gostyngiad yn sylweddol uwch yng Ngwyngyll ac yn sylweddol uwch na'r gostyngiad a welwyd ar draws Ynys Môn.

5.8 Rhwng 2001 a 2011 gwelodd y wardiau uchod ac Ynys Môn gynnydd yn y boblogaeth dros y cyfnod o 10 mlynedd.

5.9 Mae'r data diweddaraf o Gyfrifiad 2021 yn dangos bod poblogaeth breswyl Ynys Môn wedi gostwng o 69,751 yn 2011 i 68,900 yn 2021, sy'n ostyngiad o 1.2%. Mae hyn yn groes i batrwm Cymru gyfan, a welodd gynnydd cyffredinol ledled y wlad, o 3,063,456 yn 2011 i 3,107,500, sef y boblogaeth fwyaf a gofnodwyd erioed drwy gyfrifiad yng Nghymru hyd yma.<sup>1</sup>

5.10 Rhwng 2011 a 2021, gwelodd Cymru gyfan gynnydd o 17.7% o bobl 65 oed a hŷn, gyda gostyngiad o 2.5% o bobl 15 i 64 oed, a gostyngiad o 1.0% mewn plant dan 15 oed.

<sup>1</sup> ONS: Amcangyfrifon poblogaeth ac aelwydydd, Cymru: Cyfrifiad 2021 ([Population and household estimates, Wales - Office for National Statistics \(ons.gov.uk\)](https://www.ons.gov.uk/population-and-household-estimates/wales))

## Asesiad o'r Effaith ar yr Iaith Gymraeg

- 5.11 Gwelodd Ynys Môn gynnydd tebyg yn y boblogaeth o bobl 65 oed a hŷn (16.3%) a chynnydd bach o 0.1% mewn plant o dan 15 oed; fodd bynnag, gwelodd Ynys Môn ostyngiad o 7.9% yn nifer y bobl 15 i 64 oed, sy'n sylweddol uwch o ran cyfran na'r hyn a welwyd yng Nghymru drwyddi draw. Mae'n werth nodi'r gostyngiad yn y grwpiau oedran 20-24 oed (22%) a 15-19 oed (12%) yn benodol.
- 5.12 Mae StatsCymru yn darparu niferoedd mudo grwpiau oedran amrywiol i mewn ac allan o Ynys Môn rhwng 2001 a 2020. Dylid nodi bod niferoedd mudo allan pobl ifanc (15-29 oed) rhwng 2011 a 2019, yn uwch na'r niferoedd mudo i mewn yn y grŵp oedran hwn<sup>2</sup>. Felly, gwelodd Ynys Môn ostyngiad net yn nifer y bobl ifanc sy'n mudo yn ystod y cyfnod hwn. Mae hyn yn cyd-fynd â'r data uchod mewn perthynas â'r tueddiadau poblogaeth a fu yn y sir. Dim ond yn 2020 y gwelodd y sir gynnydd net yn nifer y bobl 15-64 oed sy'n mudo, a allai fod mewn perthynas â chyfyngiadau symud pandemig COVID-19 a mwy o allu i weithio o bell (ac felly, mae gan bobl fwy o ryddid i fyw lle bynnag yr hoffent).
- 5.13 Gallai rhesymau posibl dros allfudo cyson pobl ifanc rhwng 2011 a 2019, fod oherwydd diffyg cyfleoedd cyflogaeth a diffyg tai fforddiadwy.

### Siaradwyr Cymraeg (3 oed a hŷn): 2011 a 2021

- 5.14 Dengys Tabl 5.2 nifer y siaradwyr Cymraeg a chanran cyfanswm poblogaeth wardiau Braint, Gwyngyll (3 oed a hŷn), yn ogystal ag Ynys Môn a Chymru yn 2011 a 2021.

**Tabl 5.2 Nifer y siaradwyr Cymraeg a chanran cyfanswm poblogaeth (3 oed a hŷn)  
Braint, Gwyngyll, Ynys Môn a Chymru**

Ardal	2011		2021		Newid rhwng 2011 a 2021	
	Nifer	%	Nifer	%	Nifer	pwynt %
Braint	1078	73.2%	1034	73.0%	-44	-0.2%
Gwyngyll	1093	70.5%	977	68.3%	-116	-2.2%
Ynys Môn	38568	57.2%	37412	55.8	-1156	-1.4%
Cymru	562016	19.0%	538296	17.8	-23720	-1.2%

<sup>2</sup>StatsCymru: Mudo rhwng Awdurdodau Lleol yng Nghymru a gweddill y DU (POPU5023)

## Asesiad o'r Effaith ar yr Iaith Gymraeg

- 5.15 Gwelir o'r tabl uchod fod cyfran y bobl sy'n gallu siarad Cymraeg yn wardiau Braint a Gwyngyll yn agos at y trothwy o 70% lle ystyrir bod yr iaith yn hyfyw fel iaith gymunedol; roedd Braint yn uwch na'r trothwy o 70% ar 73% a Gwyngyll yn disgyn o dan y 70% ar 68.3%.
- 5.16 Gostyngodd cyfran y siaradwyr Cymraeg yn y ddwy ward, er bod y gostyngiad yn ward Braint yn llai sylweddol na'r gostyngiad a welwyd yn Gwyngyll. Serch hynny, mae cyfran y siaradwyr Cymraeg yn dal yn uwch na chyfran Ynys Môn a Chymru gyfan. Wrth ystyried cyfran y boblogaeth yn y ddwy ward sy'n cynrychioli Llanfairpwll, gallai 70.7% siarad Cymraeg yn 2021 (o'i gymharu â 71.8% yn 2011). Fel cymuned, mae Llanfairpwll ychydig o fewn y trothwy o 70% yr ystyrir ei fod yn angenrheidiol er mwyn i'r iaith fod yn iaith gymunedol.
- 5.17 Mae patrwm cyffredinol gostyngiad yng nghyfran y siaradwyr Cymraeg yng Nghymru yn adlewyrchu'r duedd gyffredinol ar gyfer Ynys Môn a Chymru yn ei chyfanrwydd.
- 5.18 Ym mhoblogaeth Ynys Môn, mae nifer y bobl sy'n gallu siarad Cymraeg wedi gostwng o 38,568 (57.2%) yn 2011 i 37,412 (55.8%) yn 2021 gan arwain at ostyngiad o 1.4% yn ei phoblogaeth sy'n siarad Cymraeg. Mae hyn yn adlewyrchu'r duedd gyffredinol a welir ar lefel Cymru gyfan.
- 5.19 Ystyrir mai'r rheswm tebygol dros y gostyngiad hwn yw newidiadau demograffig yn y boblogaeth sy'n golygu gostyngiad yn nifer y plant a chynnydd yn nifer y bobl hŷn, mudo pobl a'r gwahaniaeth yn sgiliau ei phoblogaeth o fewn y 10 mlynedd.

### **Siaradwyr Cymraeg yn ôl oedran: 2011 a 2021**

- 5.20 Mae'r tablau canlynol yn dangos dosbarthiad siaradwyr Cymraeg o fewn y grwpiau oedran a nodwyd yn flaenorol ar gyfer pob ward/awdurdod, ar gyfer y blynyddoedd 2011 a 2021.
- 5.21 Y ganran yn y tabl canlynol yw cyfran y siaradwyr Cymraeg o'r grŵp oedran cyffredinol ar gyfer yr ardal berthnasol.

### **Tabl 5.3 Cyfanswm nifer, canran a newid yn nifer y siaradwyr Cymraeg o wahanol grwpiau oedran ar gyfer ward Braint**

## Asesiad o'r Effaith ar yr Iaith Gymraeg

Grŵp oedran	Braint 2011 (nifer)	Braint 2011 (%)	Braint 2021 (nifer)	Braint 2021 (%)	Newid (nifer)	Newid pwynt %
15 oed ac iau	182	87.5	160	85.6	-22	-1.9
16 i 24 oed	116	81.7	84	82.4	-32	0.7
25 i 34 oed	107	70.9	126	80.3	19	9.4
35 i 49 oed	208	69.8	171	72.5	-37	2.7
50 i 64 oed	218	66.7	194	68.3	-24	1.6
65 oed a hŷn	247	71.2	299	66.4	52	-4.8
Cyfanswm	1078	73.2	1034	73.0	-44	-0.2

5.22 Roedd y gyfran uchaf o siaradwyr Cymraeg yn 2021 ymysg y grwpiau oedran o dan 15, 26-24 a 25-34 oed. Mae hyn yn dangos yn glir rôl bwysig addysg cyfrwng Cymraeg o ran cynnal cyfran uchel o siaradwyr Cymraeg ac mae hyn i'w weld yn ward Braint.

5.23 Mae'r ffaith bod gostyngiad yng nghyfran y siaradwyr Cymraeg ymysg y boblogaeth oedran gweithio iau (35-49) yn awgrymu bod diffyg tai addas a/neu lai o gyfleoedd cyflogaeth i gadw teuluoedd ifanc yn yr ardal. Mae hyn yn cael ei gydnabod yn yr Asesiad o'r Effaith ar yr Iaith Gymraeg yn y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd (2016).

5.24 Gwelwyd cynnydd yn nifer a chyfran y siaradwyr Cymraeg ymysg y rhai 25-34 oed, yn ogystal â chynnydd yn y niferoedd ymysg y grŵp oedran 65 oed a hŷn. Gallai hyn fod oherwydd bod pobl leol yn dal i fyw gyda theulu/rhieni, pobl leol yn mudo i'r ardal, yn ogystal â'r cynnydd mewn mynediad at adnoddau dysgu i oedolion.

**Tabl 5.4 Cyfanswm nifer, canran a newid yn nifer y siaradwyr Cymraeg o wahanol grwpiau oedran ar gyfer ward Gwyngyll**

Grŵp oedran	Gwyngyll 2011 (nifer)	Gwyngyll 2011 (%)	Gwyngyll 2021 (nifer)	Gwyngyll 2021 (%)	Newid (nifer)	Newid pwynt %
15 oed ac iau	175	85.4	143	81.7	-32	-3.7
16 i 24 oed	113	83.1	74	78.7	-39	-4.4
25 i 34 oed	93	65.5	103	68.2	10	2.7
35 i 49 oed	198	68.5	140	67.6	-58	-0.9

## Asesiad o'r Effaith ar yr Iaith Gymraeg

50 i 64 oed	235	67.3	189	64.5	-46	-2.8
65 oed a hŷn	279	65.0	328	64.3	49	-0.7
Cyfanswm	1093	70.5	977	68.3	-116	-2.2

- 5.25 Yn debyg i ward Braint, roedd y gyfran uchaf o siaradwyr Cymraeg yn ward Gwyngyll yn 2021 ymysg y grwpiau 15 ac iau a 16-24 oed, 81.7%, 78.7%, yn y drefn honno.
- 5.26 Gwelodd Gwyngyll gynnydd yng nghyfran y siaradwyr Cymraeg ymysg y boblogaeth hŷn o bobl 65 oed yn ogystal â chynnydd bach yn y grŵp oedran 25-34 oed.
- 5.27 Mae'r patrymau hyn yn adlewyrchu pwysigrwydd addysg cyfrwng Cymraeg yn ogystal â gwell mynediad at ddysgu i oedolion.

## Aseiad o'r Effaith ar yr Iaith Gymraeg

**Tabl 5.5 Nifer a chyfran y boblogaeth<sup>3</sup> (3 oed a hŷn) a allai siarad Cymraeg yn ôl grŵp oedran ar Ynys Môn a Chymru; 2011<sup>4</sup> a 2021<sup>5</sup>**

Grŵp oedran	Ynys Môn				Cymru			
	2011		2021		2011		2021	
	Nifer	%	Nifer	%	Nifer	%	Nifer	%
3 i 4	827	54.1	757	53.3	16495	23.34	11947	18.17
5 i 9	2733	78.9	2872	74.3	62300	38.20	55328	26.44
10 i 14	3053	81.5	3049	76.8	75093	42.25	66503	36.4
15	608	78.7	526	76.5	14862	39.99	12842	37.37
16 i 19	2196	71.3	1980	72.9	43651	26.95	38817	27.45
20 i 24	2467	63.9	1997	65.3	37258	17.58	34923	18.61
25 i 39	6635	61.8	6406	61.2	84455	15.54	92912	16.33
40 i 49	4992	53.2	4256	56.7	57753	13.31	52694	14.58
50 i 59	4755	50.4	4895	48.2	51627	13.29	55542	12.67
60 i 64	2557	46.8	2338	46.3	27590	13.47	25043	12.55
65 i 74	4080	47.6	4292	43.8	45112	15.01	45902	12.79
75 neu'n hŷn	3665	51.8	4048	48.1	45820	17.49	45843	15.13
Cyfanswm 3 oed a hŷn	38568	57.2	37416	55.8	562016	19.01	538296	17.84

5.28 Yn gyffredinol, yng Nghymru ac Ynys Môn, y gyfran uchaf o'r boblogaeth a oedd yn gallu siarad Cymraeg oedd y grŵp oedran 5-19 oed. Mae hyn yn atgyfnerthu pwysigrwydd y gyfundrefn addysg wrth hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg. Dylid nodi hefyd bod cyfran Ynys Môn o siaradwyr Cymraeg yn llawer uwch na chyfran Cymru yn gyffredinol, ar draws pob grŵp oedran.

<sup>3</sup>Canran y boblogaeth gyfan ar gyfer pob grŵp oedran a oedd yn gallu siarad Cymraeg

<sup>4</sup> Nomis: Cyfrifiad 2011: Gallu siarad Cymraeg yn ôl hunaniaeth genedlaethol yn ôl rhyw yn ôl oedran (DC2203WA) canrannau wedi'u cyfrifo gan Cadnant Planning Ltd

<sup>5</sup> Nomis: Cyfrifiad 2021: Sgiliau iaith Gymraeg (siarad) yn ôl blwyddyn oedran unigol (TS076) (grwpiau oedran wedi'u cyfuno gan Cadnant Planning Ltd)




## Asesiad o'r Effaith ar yr Iaith Gymraeg

5.29 Gwelodd Ynys Môn a Chymru ostyngiad cyffredinol yn nifer a chyfran y boblogaeth (3 oed a hŷn) a oedd yn gallu siarad Cymraeg rhwng 2011 a 2021. Ystyrir mai'r rheswm tebygol dros y gostyngiad hwn yw newidiadau demograffig yn y boblogaeth sy'n golygu gostyngiad yn nifer y plant a chynnydd yn nifer y bobl hŷn, mudo pobl a'r gwahaniaeth yn sgiliau ei phoblogaeth o fewn y 10 mlynedd.

### Sgiliau iaith Gymraeg: 2011 a 2021

5.30 Mae Ffigur 5.2 yn dangos canran cyfanswm y boblogaeth 3 oed a hŷn gydag un neu fwy o sgiliau Cymraeg yn ôl ardal yn 2011 a 2021.

**Ffigur 5.2 Canran y boblogaeth 3 oed a hŷn gydag un neu fwy o sgiliau<sup>6</sup> Cymraeg yn ôl ardal yn 2011<sup>7</sup> a 2021<sup>8</sup>**



5.31 Mae'r data'n dangos bod Ynys Môn a Chymru wedi gweld gostyngiad bach yng nghyfran y boblogaeth sydd ag un neu fwy o sgiliau yn y Gymraeg rhwng 2011 a 2021. Yn wahanol i'r patrwm hwn, gwelwyd cynnydd yn wardiau Braint a Gwynyll.

### Proffil seilwaith lleol

<sup>6</sup>Cyfrifir un neu fwy o sgiliau yn y ffigwr Cymraeg drwy ddiwyngu'r nifer heb unrhyw sgiliau Cymraeg o gyfanswm y boblogaeth 3 oed a throsodd.

<sup>7</sup>NOMIS: Cyfrifiad 2011: Sgiliau iaith Gymraeg (CA207WA) (canrannau wedi'u cyfrifo gan Cadnant Planning Ltd).

<sup>8</sup>NOMIS: Cyfrifiad 2021: Sgiliau iaith Gymraeg (manwl) TS032 (canrannau wedi'u cyfrifo gan Cadnant Planning Ltd).

## Asesiad o'r Effaith ar yr Iaith Gymraeg

- 5.32 Mae'r adran hon yn ystyried y proffil seilwaith lleol yn Llanfairpwll.
- 5.33 Mae Polisi TAI 2 y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd yn nodi Llanfairpwll fel Canolfan Gwasanaeth Lleol, sy'n cael ei disgrifio fel ardal sy'n "*darparu anghenion gwasanaeth hanfodol eu poblogaeth eu hunain a dalgylchoedd gwledig cyfagos yn ogystal â rhai cyfleoedd cyflogaeth a manwerthu. Mae ganddynt lefel dda o hygyrchedd ar drafnidiaeth gyhoeddus i'r Canolfannau uwch*".
- 5.34 Mae Llanfairpwll hefyd yn elwa o fod yn agos at yr A5 a'r A55, gan roi mynediad hawdd i drigolion i Ganolfan Bangor, Gaerwen a Llangefni a'r gwasanaethau a'r cyfleusterau a ddarperir yno. Mae Bangor yn ganolfan fanwerthu is-ranbarthol strategol ac mae'n gweithredu fel Canolfan drawsffiniol sy'n darparu cyfleoedd cyflogaeth bach, canolig a mawr ar safleoedd sefydledig a newydd; cyfleusterau addysg ac addysg uwch a phellach; a chyfleusterau/gwasanaethau hamdden ac iechyd. Mae'r ffyrdd hefyd yn darparu cyswllt hawdd ag Ysbyty Gwynedd ac Ystâd Ddiwydiannol Llandygai, sydd 11 munud i ffwrdd mewn car.
- 5.35 Mae'r safle o fewn pellter cerdded hawdd i lwybr bysiau sy'n cysylltu'r ganolfan â Phorthaethwy, Llangefni a Bangor, gan ganiatáu cysylltiadau â chyrchfannau eraill ymhellach i ffwrdd. Mae'r safle bws agosaf tua munud i ffwrdd ar droed, ac mae llwybrau troed i gerddwyr yn cael eu darparu o fewn ac o amgylch y safle er hwylustod. Byddai unrhyw feddianwyr ac ymwelwyr â'r safle yn y dyfodol yn cael eu hannog i ddefnyddio'r cysylltiadau bysiau, o ystyried lleoliad cyfleus y datblygiad arfaethedig.
- 5.36 Mae gorsaf drenau Llanfairpwll tua 10 munud i ffwrdd ar droed, sy'n darparu gwasanaethau rheolaidd i Fangor, Caergybi, Llandudno a chyrchfannau eraill yng Ngogledd Cymru.
- 5.37 Mae'r safle wedi'i leoli'n agos at nifer fach o wasanaethau a siopau lleol yn Llanfairpwll ei hun, fel Canolfan Iechyd Llanfairpwll, Fferyllfa Rowlands a Co-op Food. Ar ben hynny, mae anheddiad Porthaethwy oddeutu chwe munud i ffwrdd mewn car, gyda'r cyfleusterau a'r gwasanaethau a ddarperir yno.
- 5.38 O ran ysgolion cynradd, mae Ysgol Gynradd Llanfairpwll tua 0.6 milltir i ffwrdd o safle'r cais, a byddai plant o Lanfairpwll yn mynychu ysgol uwchradd Ysgol David Hughes ym Mhorthaethwy, tua 1.6 milltir i ffwrdd.

## Dealltwriaeth gyffredinol o'r Gymraeg

## Asesiad o'r Effaith ar yr Iaith Gymraeg

- 5.39 Mae AEIG y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd (2016) yn dod i'r casgliad mai'r darlun cyffredinol o'r Gymraeg yn Llanfairpwll yw bod gan yr ardal ddiwylliant Cymraeg cryf.
- 5.40 Gostyngodd cyfran y siaradwyr Cymraeg yn y ddwy ward, er bod y gostyngiad yn ward Braint yn llai sylweddol na'r gostyngiad a welwyd yn Gwyngyll. Serch hynny, mae cyfran y siaradwyr Cymraeg yn dal yn uwch na chyfran Ynys Môn a Chymru gyfan. Wrth ystyried cyfran y boblogaeth yn y ddwy ward sy'n cynrychioli Llanfairpwll, gallai 70.7% siarad Cymraeg yn 2021 (o'i gymharu â 71.8% yn 2011). Fel cymuned, mae Llanfairpwll ychydig o fewn y trothwy o 70% yr ystyrir ei fod yn angenrheidiol er mwyn i'r iaith fod yn iaith gymunedol.
- 5.41 Mae'r tablau uchod yn dangos bod cynnydd yn y ganran sydd ag un neu fwy o sgiliau yn y Gymraeg rhwng blynyddoedd 2011 a 2021.
- 5.42 Mae AEIG y CDLIC yn awgrymu mai un o'r prif resymau dros y gostyngiad yng nghanran y boblogaeth iau sy'n siarad Cymraeg yw nad oes tai addas ar gael i gadw teuluoedd ifanc yn yr ardal. Byddai'r cynnig yn helpu i annog teuluoedd ifanc lleol i aros yn yr ardal gan y byddai'n darparu tai am brisiau fforddiadwy i'r boblogaeth leol. Ar wahân i'r pedwar fflat arfaethedig (lle mae angen wedi'i nodi), gallai'r holl anheddau a gynigir ddarparu llety i deuluoedd.
- 5.43 Dylid nodi nad yw ail gartrefi yn broblem sylweddol yn Llanfairpwll. Beth bynnag, o ystyried mai unedau fforddiadwy yn unig fyddai'r anheddau arfaethedig, byddent yn cael eu cyfyngu i bobl leol yn unig, ac felly nid oes unrhyw bosibilrwydd y bydd yr unedau newydd yn cael eu defnyddio at y diben hwn.

## Cefndir polisi

- 5.44 Nodir Llanfairpwll fel Canolfan Gwasanaeth Lleol yn y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd. Mae safle'r cais y tu allan, ond yn cyffinio â ffin datblygu Llanfairpwll. Gan fod pob annedd yn cael ei chynnig fel unedau fforddiadwy, gellir ystyried y datblygiad fel safle eithriad o dan bolisi TAI 16 y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd.
- 5.45 Mae Polisi TAI 16 yn caniatáu i gynigion ar gyfer cynlluniau tai fforddiadwy 100% ar safleoedd sy'n cyffinio â ffiniau datblygu sy'n ffurfio estyniad rhesymol i'r anheddiad gael eu caniatáu, ar yr amod bod angen lleol wedi'i brofi am dai fforddiadwy na ellir yn rhesymol eu cyflawni o fewn amserlen resymol ar safle marchnad y tu mewn i'r ffin ddatblygu.

## Asesiad o'r Effaith ar yr Iaith Gymraeg

- 5.46 Mae dau ddyraniad tai yn Llanfairpwll, T35 (Tir ger Bryn Eira) a T36 (Tir ger Ffordd Penmynydd) ac mae Atodiad 5 y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd yn nodi darpariaeth ddangosol (gan gynnwys lwfans llithriant o 10%) o 82 uned a ddisgwylir ar gyfer Llanfairpwll yn ystod cyfnod y Cynllun. O 2011 i 21, mae cyfanswm o 64 o anheddau wedi cael eu cwblhau yn Llanfairpwll (14 ar safleoedd a ddyrannwyd a 50 ar hap-safleoedd). Cyfanswm y banc tir (hap-safleoedd a safleoedd a ddyrannwyd), h.y. safleoedd gyda chaniatâd cynllunio sy'n bodoli eisoes ac sy'n debygol o gael ei ddatblygu, ym mis Ebrill 2021, oedd 8 uned (dau ar safleoedd a ddyrannwyd ac wyth ar hap-safleoedd). Mae hyn yn golygu y bydd Llanfairpwll wedi mynd y tu hwnt i'w gapasiti ar hap-safleoedd.
- 5.47 Mae Polisi PS 17 y Cynllun yn datgan y bydd 22% o dwf tai'r Cynllun yn y Canolfannau Gwasanaeth Lleol. Y lefel twf dangosol (gan gynnwys llithriad o 10%) ar gyfer Canolfannau Gwasanaeth Lleol yw 1754 uned. Cwblhawyd 859 o unedau rhwng 2011 a 2021 ym mhob Canolfan Gwasanaeth Lleol a 493 ohonynt yn y banc tir. Mae hyn yn golygu bod diffyg o 402 uned ar hyn o bryd. Ar hyn o bryd, felly, gellir cefnogi datblygiad y safle hwn gan y ddarpariaeth ddisgwyliedig yn y categori Canolfannau Gwasanaeth Lleol.
- 5.48 Mae'r safle'n cyffinio â ffin ddatblygu Llanfairpwll fel y nodir ym Mapiau Cynigion y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd, ac felly gellir ystyried y safle fel estyniad rhesymol i ffin yr anheddiad.
- 5.49 Ar ben hynny, byddai'r unedau tai a gynigir i gyd yn unedau fforddiadwy, a byddent yn aros felly am byth. Byddai'r datblygiad arfaethedig yn diwallu angen tai a nodwyd, a nodir yn fanylach isod yn yr adroddiad hwn.
- 5.50 Mae'r Datganiad Dylunio, Mynediad a Chynllunio a gyflwynwyd fel rhan o'r cais hwn yn rhoi cyfiawnhad pellach dros y datblygiad, ac yn dod i'r casgliad y byddai'r datblygiad arfaethedig yn dderbyniol o ran egwyddor a'r holl ystyriaethau cynllunio eraill.

### **Anghenion tai presennol**

- 5.51 Mae'r dystiolaeth a gyflwynwyd fel rhan o'r cais hwn yn cynnwys ffigurau anghenion tai ar gyfer Llanfairpwll a ddarparwyd gan Strategaeth Tai Cyngor Sir Ynys Môn ym mis Medi 2020. Efallai y bydd rhai pobl yn gymwys i fod ar y gofrestr tai cymdeithasol a'r gofrestr tai fforddiadwy, ac o ganlyniad efallai y bydd dyblygu'n bosibl.

## Asesiad o'r Effaith ar yr Iaith Gymraeg

5.52 Cyflwynir yr angen am dai ar sail gwybodaeth o'r Gofrestr Tai Cymdeithasol yn Nhabl 5.7.

**Tabl 5.7 Ffigurau angen tai o'r Gofrestr Tai Cymdeithasol**

Angen	Nifer yr ystafelloedd gwely	Math
48	1 ystafell wely	26 anghenion cyffredinol a 22 llety i bobl hŷn
34	2 ystafell wely	30 anghenion cyffredinol a 4 llety i bobl hŷn
7	3 ystafell wely	Anghenion cyffredinol
2	4 ystafell wely	Anghenion cyffredinol
1	5 ystafell wely	Anghenion cyffredinol
1	6 ystafell wely	Anghenion cyffredinol

5.53 Mae'r ffigurau hyn yn dangos mai ar gyfer unedau un a dwy ystafell wely y mae'r angen mwyaf mewn perthynas â thai cymdeithasol.

5.54 Mae ffigurau anghenion tai o gofrestr Tai Teg yn berthnasol i'r rhai sydd ag angen tai is-farchnad ar Ynys Môn, er nad yw ond yn cynnwys rhai sydd wedi cofrestru, ac nid yw'n gynhwysfawr.

5.55 Ar hyn o bryd mae 101 o aelwydydd ar wefan Tai Teg ar gyfer tai fforddiadwy yn Llanfairpwll:

- Nid oedd 4 yn nodi nifer yr ystafelloedd gwely (2 prynu; 1 rhent; 2 prynu neu rent)
- 1 eisiau 1 ystafell wely (1 prynu)
- 49 eisiau 2 ystafell wely (23 prynu; 16 rhent; 5 prynu neu rent; 3 prynu neu hunan-adeiladu; 1 rhent neu hunan-adeiladu; 1 prynu neu rent neu hunan-adeiladu)
- 43 eisiau 3 ystafell wely (17 prynu; 14 rhent; 12 prynu neu rent)
- 4 eisiau 4+ ystafell wely (3 prynu; 1 rhent)

5.56 Mae'r rhain yn nodi'r angen am anheddau fforddiadwy dwy a thair ystafell wely yn bennaf.

5.57 Mae'r Hwylusydd Tai Gwledig yn cynnal Arolwg o Anghenion Tai yn Llanfairpwll ar hyn o bryd a bydd y canlyniadau'n cael eu cyflwyno fel rhan o'r cais cynllunio pan fydd y rhain ar gael.

5.58 Roedd sylwadau cyn ymgeisio gan Adran Strategaeth Tai'r Cyngor yn cadarnhau bod galw mawr iawn am dai fforddiadwy yn Llanfairpwll ac felly byddent yn cefnogi'r

## Asesiad o'r Effaith ar yr Iaith Gymraeg

datblygiad arfaethedig. Mae ClwydAlyn Housing Ltd fel yr ymgeisydd yn Landlord Cymdeithasol Cofrestredig ac mae wedi cadarnhau'r angen am yr unedau fforddiadwy arfaethedig yn y pentref.

- 5.59 Felly, gellir dangos bod angen tai cymdeithasol llai o un a dwy ystafell wely, ac anheddau canolradd dwy a thair ystafell wely, a byddai'r datblygiad arfaethedig yn helpu i ddiwallu'r angen hwn am dai fforddiadwy yn Llanfairpwll.

### Ymgysylltu

- 5.60 Mae'r CCA mabwysiedig yn darparu Diagram 4 er mwyn egluro'r broses o sgrinio'r datblygiad arfaethedig. Mae'n pwysleisio'r fantais o ymgysylltu ac ymgynghori â'r gwasanaeth cynllunio a rhanddeiliaid eraill yn ystod y cam cyn ymgeisio mewn ffordd sy'n gymesur â maint a math y datblygiad arfaethedig.
- 5.61 Yn yr achos hwn, mae'r cynnig yn ymwneud â chais am 27 o anheddau, ac felly mae'n gais mawr. Mae Ymgynghoriad Cyn Ymgeisio yn cael ei gynnal cyn cyflwyno cais cynllunio yn ychwanegol at yr Ymgynghoriad Cyn Ymgeisio a gynhaliwyd ar y cais a wrthodwyd yn flaenorol. Bydd y sylwadau a gafwyd yn ystod yr Ymgynghoriad Cyn Ymgeisio ac ymateb yr ymgeiswyr i'r sylwadau hynny yn cael eu nodi yn Adroddiad yr Ymgynghoriad Cyn Ymgeisio a gyflwynir fel rhan o gais cynllunio llawn.
- 5.62 Ar ben hynny, mae trafodaethau cyn ymgeisio wedi cael eu cynnal eisoes gyda'r Awdurdod Cynllunio Lleol yn dilyn y cais gwreiddiol a bydd trafodaethau cyn ymgeisio ffurfiol yn cael eu cynnal ochr yn ochr â'r Ymgynghoriad Cyn Ymgeisio.
- 5.63 Ystyrir bod maint yr ymgysylltu a wnaed cyn cyflwyno'r cais cynllunio yn gymesur ar gyfer y cynnig.

## Asesiad o'r effaith ar y Gymraeg

5.64 Mae'r asesiad o'r effaith ar y Gymraeg wedi'i nodi yn y tablau canlynol, fel sy'n ofynnol gan y CCA mabwysiedig.

*Tabl 5.8 Asesu'r effaith ar iaith a symudedd y boblogaeth*

IAITH A SYMUDEDD Y BOBLOGAETH	Ystyried yr effeithiau posibl	Sgôr		
Esboniwch, gyda thystiolaeth lawn, a yw'r datblygiad yn debygol o arwain at newid yng nghyfansoddiad y boblogaeth yn yr ardal nawr ac yn y dyfodol, ac yn benodol o ran cyfrannu neu effeithio ar y cyfansoddiad ieithyddol		Effaith	Tebygolrwydd	Sgôr gyfansawdd
Sut mae'r datblygiad yn mynd i sicrhau cyfleoedd i bobl aros yn eu cymuned?	<p>Byddai'r datblygiad arfaethedig yn darparu 27 o anheddau preswyl, pob un ohonynt yn anheddau fforddiadwy a byddai'n aros felly am byth.</p> <p>Roedd yr angen am dai a nodwyd yn adran 6 yr adroddiad hwn yn nodi bod angen penodol, yn enwedig ar gyfer tai cymdeithasol un a dwy ystafell wely, ac anheddau canolradd dwy a thair ystafell wely yn Llanfairpwll. Byddai'r datblygiad yn darparu cymysgedd o unedau fforddiadwy un, dwy a thair ystafell wely a fyddai'n diwallu'r angen hwnnw'n benodol. Byddai darparu tair annedd â phedair ystafell wely hefyd yn cyfrannu at yr angen a nodwyd am dai ar gyfer anheddau mwy.</p>	1	4	4

## Aseiad o'r Effaith ar yr Iaith Gymraeg

IAITH A SYMUDEDD Y BOBLOGAETH	Ystyried yr effeithiau posibl	Sgôr		
Esboniwch, gyda thystiolaeth lawn, a yw'r datblygiad yn debygol o arwain at newid yng nghyfansoddiad y boblogaeth yn yr ardal nawr ac yn y dyfodol, ac yn benodol o ran cyfrannu neu effeithio ar y cyfansoddiad ieithyddol		Effaith	Tebygolrwydd	Sgôr gyfansawdd
	<p>Byddai'r cymysgedd tai arfaethedig yn cyd-fynd â'r angen hwn a byddai darparu 27 o anheddau fforddiadwy yn cyfrannu at y cyflenwad tai fforddiadwy yn yr ardal. Felly, byddai'r datblygiad arfaethedig yn darparu tai addas i helpu i ateb y galw am dai yn yr ardal leol, gan annog pobl leol i aros yn yr ardal leol gan y byddai modd diwallu eu hanghenion tai yn lleol.</p> <p>Yn dilyn newidiadau diweddar i'r system fudd-daliadau, efallai y bydd llawer o denantiaid sydd ar hyn o bryd yn dioddef o'r dreth ystafell wely oherwydd tanfeddiannaeth yn dymuno symud i gartref llai. Byddai'r anheddau un a dwy ystafell wely arfaethedig yn cyfrannu at reoli'r stoc dai bresennol yn well, gan ganiatáu i'r ymgeiswyr hynny sy'n dymuno symud i gartref llai adael eu cartrefi presennol a'u rhyddhau i eraill. Byddai hyn hefyd yn helpu teuluoedd sydd ar y gofrestr dai ac sydd angen cartrefi 4+ ystafell wely.</p> <p>Bydd yr unedau llai arfaethedig yn denu'r rheini y mae'r dreth ystafell wely yn effeithio arnynt ar hyn o bryd, a bydd hyn yn rhyddhau cartrefi mwy i deuluoedd y mae angen tai arnynt.</p>			



## Asesiad o'r Effaith ar yr Iaith Gymraeg

IAITH A SYMUDEDD Y BOBLOGAETH	Ystyried yr effeithiau posibl	Sgôr		
Esboniwch, gyda thystiolaeth lawn, a yw'r datblygiad yn debygol o arwain at newid yng nghyfansoddiad y boblogaeth yn yr ardal nawr ac yn y dyfodol, ac yn benodol o ran cyfrannu neu effeithio ar y cyfansoddiad ieithyddol		Effaith	Tebygolrwydd	Sgôr gyfansawdd
	<p>Mae Llanfairpwll yn darparu rhywfaint o gyfleoedd cyflogaeth a manwerthu yn yr ardal gyfagos. Mae ganddo hefyd lefel dda o drafnidiaeth gyhoeddus i Borthaethwy, Llangefni a Bangor sy'n darparu lefel uchel o gyfleoedd cyflogaeth. Byddai hyn yn annog pobl leol i aros yn yr ardal, fydd yn gallu cael mynediad at y gwasanaethau a'r cyfleusterau hyn.</p> <p>Byddai'r rhan fwyaf o'r anheddau'n cael eu darparu fel anheddau dwy ystafell wely a fyddai'n addas i deuluoedd. Byddai darparu cymysgedd dda o dai sy'n diwallu angen a nodwyd yn rhoi cyfleoedd i bobl leol aros mewn cymunedau yn ardal Llanfairpwll.</p> <p>Roedd canlyniadau Cyfrifiad 2011 yn nodi gostyngiad cyffredinol yng nghyfran y boblogaeth oedran gweithio (16-49) a oedd yn siarad Cymraeg yn Llanfairpwll. Roedd AEIG y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd yn awgrymu bod hyn oherwydd diffyg tai addas a/neu gyfleoedd cyflogaeth yn Llanfairpwll. Byddai darparu tai fforddiadwy, sy'n addas i amrywiaeth o feddianwyr, ond tai i deuluoedd yn bennaf, yn cyfrannu at roi cyfle i deuluoedd oedran gweithio ifanc barhau i fyw yn yr ardal, yn hytrach na chael eu gorfodi i adael.</p>			

## Aseiad o'r Effaith ar yr Iaith Gymraeg

IAITH A SYMUDEDD Y BOBLOGAETH	Ystyried yr effeithiau posibl	Sgôr		
Esboniwch, gyda thystiolaeth lawn, a yw'r datblygiad yn debygol o arwain at newid yng nghyfansoddiad y boblogaeth yn yr ardal nawr ac yn y dyfodol, ac yn benodol o ran cyfrannu neu effeithio ar y cyfansoddiad ieithyddol		Effaith	Tebygolrwydd	Sgôr gyfansawdd
	Ar sail y wybodaeth a nodir uchod, byddai'r datblygiad arfaethedig yn cyfrannu at ddiwallu angen a nodwyd am unedau fforddiadwy yn Llanfairpwll a'r ardaloedd cyfagos. Byddai hefyd yn cyfrannu at ddiwallu angen presennol tenantiaid sy'n cael eu heffeithio gan y dreth ystafell wely am danfeddiannu eu heiddo presennol. Byddai hyn yn creu effaith anuniongyrchol o ryddhau unedau 4 gwely mewn mannau eraill o bosibl i deuluoedd.			
A oes tebygolrwydd y bydd y datblygiad yn denu pobl ychwanegol i'r gymuned? Os bydd, faint a ddisgwylir? O ble fydden nhw'n dod? Faint a pha ganran sy'n debygol o fod yn siaradwyr Cymraeg?	Byddai'r holl unedau arfaethedig yn unedau fforddiadwy ac felly'n cael eu meddiannu gan bobl leol sydd angen eiddo fforddiadwy. Disgwylir i'r bobl hyn fod yn byw yn y gymuned ar hyn o bryd ond na allant ddiwallu eu hangen am dŷ. Yn wir, mae'r ffigurau anghenion tai a ddarperir yn adran 5 yr adroddiad hwn yn dangos bod angen lleol sylweddol. Efallai bod rhai o'r rhai mewn angen eisoes wedi gorfod gadael Llanfairpwll i ddiwallu eu hangen am dai ond yn dymuno dychwelyd i fyw mewn lleoliad cynaliadwy a hygyrch lle mae'r Gymraeg a'i diwylliant yn gryf.	0	4	0

## Asesiad o'r Effaith ar yr Iaith Gymraeg

IAITH A SYMUDEDD Y BOBLOGAETH	Ystyried yr effeithiau posibl	Sgôr		
Esboniwch, gyda thystiolaeth lawn, a yw'r datblygiad yn debygol o arwain at newid yng nghyfansoddiad y boblogaeth yn yr ardal nawr ac yn y dyfodol, ac yn benodol o ran cyfrannu neu effeithio ar y cyfansoddiad ieithyddol		Effaith	Tebygolrwydd	Sgôr gyfansawdd
A yw'n debygol y bydd pobl leol yn mudo o'r gymuned o ganlyniad i'r datblygiad?	Byddai'r datblygiad yn galluogi pobl leol sydd angen eiddo fforddiadwy i fyw mewn lleoliad hygyrch a chynaliadwy, gan ddiwallu angen a nodwyd. Nid oes disgwyl i'r cynnig arwain at allfudo o'r gymuned leol.	0	4	0
A yw'r datblygiad yn debygol o arwain at newid strwythur oedran y gymuned: mwy neu lai o blant, pobl ifanc, pobl canol oed, pobl hŷn?	Disgwylir i'r tai a gynigir gael eu meddiannu gan unigolion, cyplau neu deuluoedd sydd angen tai fforddiadwy yn yr ardal. Ystyrir y byddai'r cynnig yn annog defnydd lleol o'r ardal leol naill ai drwy gadw'r bobl leol bresennol, neu annog pobl leol a oedd wedi symud i ffwrdd o'r ardal o'r blaen oherwydd diffyg darpariaeth tai fforddiadwy i ddychwelyd. Byddai disgwyl i'r datblygiad fod yn addas ar gyfer pobl leol o'r cyffiniau.  Byddai 23 o'r unedau arfaethedig yn darparu ystafelloedd gwely ar gyfer dibynyddion. Er hynny, fel y manylir ymhellach yn y tabl hwn, ni fyddai effaith hyn yn arwain at unrhyw effeithiau andwyol ar y Gymraeg mewn ysgolion yn yr ardal.	0	4	0
A oes tebygolrwydd y bydd newid yn y cydbwysedd rhwng siaradwyr Cymraeg (gan	Mae cyfran y siaradwyr Cymraeg yn wardiau Braint a Gwyngyll (73% a 68.3% yn y drefn honno) yn uwch nag ar gyfer sir gyfan Ynys Môn (55.8%). Nid oes disgwyl i'r ddarpariaeth o 27 o unedau preswyl fforddiadwy i ddiwallu'r angen a nodwyd am	0	4	0

## Aseiad o'r Effaith ar yr Iaith Gymraeg

IAITH A SYMUDEDD Y BOBLOGAETH	Ystyried yr effeithiau posibl	Sgôr		
		Effaith	Tebygolrwydd	Sgôr gyfansawdd
<p>Esboniwch, gyda thystiolaeth lawn, a yw'r datblygiad yn debygol o arwain at newid yng nghyfansoddiad y boblogaeth yn yr ardal nawr ac yn y dyfodol, ac yn benodol o ran cyfrannu neu effeithio ar y cyfansoddiad ieithyddol</p>				
<p>gynnwys dysgwyr) ac unigolion heb unrhyw allu yn y Gymraeg?</p>	<p>dai yn yr ardal leol arwain at newidiadau yn y cydbwysedd rhwng siaradwyr Cymraeg a'r di-Gymraeg gan y byddai meddianwyr lleol eisoes yn byw yn yr ardal. Efallai fod yna rai siaradwyr Cymraeg lleol a allai fod wedi gorfod gadael Llanfairpwll ac sy'n dymuno dychwelyd, a gallai hyn arwain at gynydd yn nifer y siaradwyr Cymraeg, fodd bynnag ni fyddai disgwyl i hyn arwain at newid amlwg yn y defnydd o'r Gymraeg yn y gymuned.</p> <p>Gan y byddai'r holl unedau yn dai fforddiadwy a bod disgwyl i'r bobl hynny fod yn bobl leol sydd eisoes yn byw yn yr ardal leol, nid oes disgwyl i'r cynnig arwain at newid amlwg yn nifer y siaradwyr Cymraeg yn yr ardal ehangach.</p> <p>Ar ben hynny, byddai plant yn cael eu cofrestru mewn ysgol cyfrwng Cymraeg (gan fod pob ysgol yng Ngwynedd yn ysgolion cyfrwng Cymraeg), ac mae nifer o adnoddau dysgu Cymraeg ar gael yn yr ardal ar gyfer preswylwyr sy'n oedolion. Felly, mae'n debygol y byddai unrhyw anghydbwysedd cychwynnol yn cael ei adfer ar ôl y meddiannu cychwynnol.</p>			

## Aseiad o'r Effaith ar yr Iaith Gymraeg

IAITH A SYMUDEDD Y BOBLOGAETH	Ystyried yr effeithiau posibl	Sgôr		
Esboniwch, gyda thystiolaeth lawn, a yw'r datblygiad yn debygol o arwain at newid yng nghyfansoddiad y boblogaeth yn yr ardal nawr ac yn y dyfodol, ac yn benodol o ran cyfrannu neu effeithio ar y cyfansoddiad ieithyddol		Effaith	Tebygolrwydd	Sgôr gyfansawdd
A yw'r newid yn debygol o fod yn barhaol neu dros dro?	Mae'r cynnig yn ymwneud â 27 o unedau preswyl ac felly byddai unrhyw newid a fyddai'n digwydd yn barhaol.	AMH	AMH	AMH
<p><b>Effaith y datblygiad arfaethedig ar iaith a symudedd poblogaeth dros 20 mlynedd</b></p> <p>Byddai'r unedau arfaethedig yn cyfrannu at ddiwallu angen a nodwyd am dai yn Llanfairpwll. Byddai'r holl unedau'n fforddiadwy ac felly'n cael eu meddiannu gan bobl leol sydd eisoes yn byw yn y gymuned ond nad ydynt yn gallu diwallu eu hanghenion tai.</p> <p>Os na fyddai'r datblygiad arfaethedig yn cael ei gyflwyno, mae'r rhai sydd angen tai fforddiadwy yn annhebygol o allu parhau i fyw yn eu cymunedau lleol ac yn debygol o orfod gadael yn y pen draw, a fyddai'n arwain at bobl leol yn allfudo, a fyddai'n debygol o arwain at ostyngiad yn nifer a chyfran y siaradwyr Cymraeg yn Llanfairpwll. Byddai darparu 27 o anheddau fforddiadwy yn cyfrannu at arafu'r duedd honno gan alluogi pobl leol i barhau i fyw yn Llanfairpwll neu i'r rheini a allai fod wedi gadael, ddychwelyd.</p> <p>Gallai hyn arwain at gynnydd bach yn nifer y siaradwyr Cymraeg a allai fod yn hanfodol i arafu'r duedd a welwyd yn flaenorol o gostyngiad yn nifer a chyfran y siaradwyr Cymraeg yn Llanfairpwll, yn enwedig gan fod y ganolfan ond ar y trothwy o 70% (70.7%) lle mae'r iaith yn cael ei hystyried yn iaith gymunedol hyfyw. Byddai hyn yn effaith fanteisiol fach wrth ystyried y Gymraeg a symudedd y boblogaeth.</p>				

## Asesiad o'r Effaith ar yr Iaith Gymraeg

**Tabl 5.9 Asesiad o'r effaith ar elfennau gweledol y Gymraeg**

ELFENNAU GWELEDOL	Ystyried yr effeithiau posibl	Sgôr		
Esboniwch, gyda thystiolaeth, sut y bydd y datblygiad yn effeithio ar y gwelededd ieithyddol yn yr ardal, o ran hyrwyddo diwylliant unigryw'r ardal.		Effaith	Tebygolrwydd	Sgôr gyfansawdd
A fydd y datblygiad yn gwneud yr iaith yn fwy amlwg?	Byddai'r datblygiad arfaethedig yn cynnwys enw Cymraeg ar y datblygiad ac felly mae ganddo'r potensial i gyfrannu at gynnal a chynyddu amlygrwydd y Gymraeg yn yr ardal.	0	4	0
Delwedd gorfforaethol a brandio – arwyddion a hysbysebion ar y safle sydd o fewn y cylch gwaith cynllunio, e.e. arwyddion hysbysebu/marchnata ar gyfer safle tai newydd, arwyddion a hysbysebion i gwsmeriaid mewn mannau cyhoeddus ar safleoedd cyflogaeth.	Byddai unrhyw arwyddion hysbysebu/brandio cyhoeddus mewn perthynas â'r datblygiad arfaethedig hwn yn ddwyieithog.  Mae'r mater hwn yn berthnasol yn bennaf i ddatblygiadau masnachol a diwydiannol yn hytrach na datblygiadau preswyl.	0	4	0
Enw'r safle neu ddatblygiad – a fydd yn cadw hen enw Cymraeg	Enw Cymraeg fyddai enw'r datblygiad a byddai'n ystyried cysylltiadau hanesyddol, daearyddol neu leol â'r ardal.	0	4	0

## Asesiad o'r Effaith ar yr Iaith Gymraeg

<p>neu a fydd unrhyw enwau newydd yn dod o gysylltiadau hanesyddol, daearyddol neu leol â'r ardal, os yw hynny'n ymarferol.</p>				
<p><b>Effaith y datblygiad arfaethedig ar elfennau gweledol dros 20 mlynedd</b></p> <p>Disgwylir i'r cynnig gyfrannu'n fuddiol at elfennau gweledol y Gymraeg yn Llanfairpwll, a fyddai'n cael effaith fanteisiol gyffredinol ar y Gymraeg o ran hyrwyddo diwylliant Cymraeg ac enwau lleoedd. Fodd bynnag, nid oes disgwyl i hyn arwain at newid uniongyrchol yng nghyfran y siaradwyr Cymraeg ac felly nodir effaith niwtral yn gyffredinol ar gyfran a nifer y siaradwyr Cymraeg.</p>				

## Asesiad o'r Effaith ar yr Iaith Gymraeg

**Tabl 5.10 Asesu'r effaith ar ansawdd bywyd gan gynnwys seilwaith cymunedol**

ANSAWDD BYWYD GAN GYNNWYS SEILWAITH CYMUNEDOL	Ystyried yr effeithiau posibl	Sgôr		
Esboniwch, gyda thystiolaeth lawn, sut mae'r datblygiad yn effeithio ar ansawdd bywyd y gymuned (amwynderau cyhoeddus a chyfleusterau a gwasanaethau cymunedol).		Effaith	Tebygolrwydd	Sgôr gyfansawdd
I ba raddau mae'r datblygiad yn effeithio ar amwynder cyhoeddus/yr amgylchedd yn yr ardal? A fydd yr ardal yn fwy/yn llai dymunol i fyw ynddi?	Byddai darparu anheddau fforddiadwy yn darparu tai i'r gymuned leol, gan helpu i ddiwallu'r angen a nodwyd am dai yn yr ardal leol.  Mae'r cynnig yn sicrhau diogelwch ac amwynder y cyhoedd ac yn diogelu'r amgylchedd rhag effeithiau niweidiol llygredd dŵr, tir neu aer, peryglon yn sgil diwydiant, a sŵn, arogl neu ddirgryniad cysylltiedig sy'n deillio o'r datblygiad. Byddai cynllun a dyluniad y cynnig yn gynhwysfawr, yn ddeniadol ac yn ymarferol ei natur, ac ni fyddai'n arwain at unrhyw effaith niweidiol ar amwynder cyhoeddus. Mae ystyriaeth a mesurau lliniaru wedi cael eu hymgorffori yn y dyluniad mewn perthynas â sŵn ac nid ystyrir bod y datblygiad yn annerbyniol o safbwynt amwynder preswyl.	0	3	0
Pa mor ddigonol yw'r gofal plant a'r lleoedd cyn-ysgol sydd ar gael yn yr ardal?	Gan fod y rhan fwyaf o feithrinfeydd ac ysgolion meithrin yn cael eu rhedeg yn breifat, nid yw'n bosibl cadarnhau niferoedd capasiti. Fodd bynnag, mae meithrinfeydd ar	0	4	0



## Asesiad o'r Effaith ar yr Iaith Gymraeg

ANSAWDD BYWYD GAN GYNNWYS SEILWAITH CYMUNEDOL	Ystyried yr effeithiau posibl	Sgôr		
Esboniwch, gyda thystiolaeth lawn, sut mae'r datblygiad yn effeithio ar ansawdd bywyd y gymuned (amwynderau cyhoeddus a chyfleusterau a gwasanaethau cymunedol).		Effaith	Tebygolrwydd	Sgôr gyfansawdd
	<p>gael yn yr ardal, gan gynnwys lleoedd cyn-ysgol Cymraeg gan gynnwys Meithrinfa Bach Hapus a Chylch Meithrin Llanfairpwll.</p> <p>Mae chwiliad gwe ar wefan Mudiad Meithrin yn nodi 27 o grwpiau gofal plant cyfrwng Cymraeg megis Clych Meithrin, Ti a Fi a meithrinfa ddydd o fewn radiws 5 milltir i'r safle.</p> <p>Felly, ystyrir bod digon o feithrinfeydd a lleoedd cyn-ysgol yn y cyffiniau i ddarparu ar gyfer y datblygiad arfaethedig.</p>			
Pa mor ddigonol yw nifer y lleoedd ysgol yn yr ardal leol? A fyddai'r datblygiad yn debygol o alw am fwy o lefydd neu a oes digon o le yn yr ysgolion? A oes digon o adnoddau fel y gall ysgolion barhau i gyflawni eu rôl o ran cynhyrchu siaradwyr Cymraeg rhugl?	<p>Mae'r CCA mabwysiedig ar Rwymedigaethau Cynllunio yn cadarnhau bod disgwyl i ddatblygiad preswyl gynhyrchu cyfartaledd o 0.40 o ddisgyblion y tŷ (2+ o ystafelloedd gwely) ar gyfer addysg gynradd. Gan fod 4 x fflat un ystafell wely yn cael eu cynnig fel rhan o'r datblygiad hwn, mae'r cyfraniad a gyfrifir yn seiliedig ar 27 minws pedair annedd. Ar sail hyn, byddai'r datblygiad arfaethedig o 23 o dai yn debygol o gynhyrchu 9.2 o ddisgyblion (wedi'i dalgrynnu i 10) fyddai angen addysg gynradd (23 x 0.40).</p> <p>Disgwylir y bydd y datblygiad arfaethedig ar gyfer 23 x tai 2 ystafell wely (27 minws 4 x fflat un ystafell wely) yn cynhyrchu cyfartaledd o 0.29 o ddisgyblion y tŷ ar gyfer</p>	0	4	0

## Asesiad o'r Effaith ar yr Iaith Gymraeg

ANSAWDD BYWYD GAN GYNNWYS SEILWAITH CYMUNEDOL	Ystyried yr effeithiau posibl	Sgôr		
Esboniwch, gyda thystiolaeth lawn, sut mae'r datblygiad yn effeithio ar ansawdd bywyd y gymuned (amwynderau cyhoeddus a chyfleusterau a gwasanaethau cymunedol).		Effaith	Tebygolrwydd	Sgôr gyfansawdd
	<p>addysg uwchradd (blynyddoedd 7-11) a 0.02 o ddisgyblion y tŷ ar gyfer addysg uwchradd (blynyddoedd 12 a 13). Ar sail hyn, byddai'r datblygiad arfaethedig yn debygol o gynhyrchu 6.67 (wedi'i dalgrynnu i 7) fyddai angen addysg uwchradd (blynyddoedd 7-11) a 0.46 o ddisgyblion (wedi'i dalgrynnu i 1) fyddai angen addysg uwchradd (blynyddoedd 12 a 13).</p> <p>Yr ysgol gynradd agosaf at safle'r cais yw Ysgol Gynradd Llanfairpwll, a byddai disgyblion ysgol uwchradd yn mynychu Ysgol David Hughes ym Mhorthaethwy.</p> <p>Wrth benderfynu ar y cais blaenorol, nododd Adran Addysg y Cyngor na fydd angen cyfraniad tuag at addysg. Cynigir pob annedd breswyl fel anheddau fforddiadwy ac felly ni ddisgwylir y bydd angen unrhyw gyfraniad ariannol ychwanegol tuag at dai fforddiadwy, gan gadarnhau felly y byddai'r ysgolion yn yr ardal leol yn gallu darparu ar gyfer y nifer arfaethedig o ddisgyblion a gynhyrchir gan y datblygiad arfaethedig.</p>			
Sut byddai'r datblygiad yn debygol o effeithio ar y cydbwysedd rhwng disgyblion	Byddai'r disgyblion yn bobl leol ac felly byddent yn mynychu ysgolion lleol, a disgwylir iddynt fod yn siaradwyr Cymraeg yn barod. Felly, ni fyddai disgwyl unrhyw effaith ar y cydbwysedd rhwng disgyblion di-Gymraeg a disgyblion Cymraeg.	0	4	0

## Asesiad o'r Effaith ar yr Iaith Gymraeg

ANSAWDD BYWYD GAN GYNNWYS SEILWAITH CYMUNEDOL	Ystyried yr effeithiau posibl	Sgôr		
Esboniwch, gyda thystiolaeth lawn, sut mae'r datblygiad yn effeithio ar ansawdd bywyd y gymuned (amwynderau cyhoeddus a chyfleusterau a gwasanaethau cymunedol).		Effaith	Tebygolrwydd	Sgôr gyfansawdd
di-Gymraeg a disgyblion Cymraeg eu hiaith yn yr ysgol? A fyddai angen mwy o lefydd yn yr uned drochi? A oes digon o adnoddau i ddarparu cyfleusterau a chyfleoedd fel bod plant o gartrefi di-Gymraeg a'r rhai sydd wedi dysgu Cymraeg fel ail iaith yn gallu defnyddio a gwella eu Cymraeg a dod yn rhan o'r gymuned Gymraeg?				
A fyddai'r datblygiad yn cynyddu'r galw am gyfleusterau a gwasanaethau lleol?	Mae Llanfairpwll yn cael ei adnabod fel Canolfan Gwasanaeth Lleol yn y CDLIC a fabwysiadwyd. Mae'r safle o fewn pellter cerdded hawdd i lwybrau bysiau a chysylltiadau rheilffordd, gan gysylltu'r Ganolfan â Chaergybi, Porthaethwy, Llangefni a Bangor, gan ganiatáu cysylltiadau â chyrchfannau eraill ymhellach i ffwrdd. Mae Bangor yn ganolfan fanwerthu is-ranbarthol strategol ac mae'n gweithredu fel Canolfan drawsffiniol sy'n darparu cyfleoedd cyflogaeth bach, canolig	0	4	0

### Asesiad o'r Effaith ar yr Iaith Gymraeg

ANSAWDD BYWYD GAN GYNNWYS SEILWAITH CYMUNEDOL	Ystyried yr effeithiau posibl	Sgôr		
Esboniwch, gyda thystiolaeth lawn, sut mae'r datblygiad yn effeithio ar ansawdd bywyd y gymuned (amwynderau cyhoeddus a chyfleusterau a gwasanaethau cymunedol).		Effaith	Tebygolrwydd	Sgôr gyfansawdd
	<p>a mawr ar safleoedd sefydledig a newydd; cyfleusterau addysg ac addysg uwch a phellach; a chyfleusterau/gwasanaethau hamdden ac iechyd.</p> <p>Mae'n hawdd cael mynediad at bob amwynderau lleol ar drafnidiaeth gyhoeddus ac ar droed ac maent wedi'u lleoli o fewn pellter byr i'r safle. O ran lleoliad y datblygiad a'i addasrwydd ar gyfer datblygiad preswyl, mae safle'r cais o fewn pellter cerdded i'r ystod o wasanaethau a gynigir yn Llanfairpwll a dim ond pellter byr o'r gwasanaethau a'r cyfleusterau ym Mhorthaethwy, a'r gwasanaethau a'r cyfleusterau ehangach ym Mangor.</p> <p>O ystyried lleoliad yr unedau, disgwylir y byddai unrhyw breswylwyr yn y dyfodol yn defnyddio cyfleusterau lleol, a fyddai o fudd i'r economi leol (er enghraifft, cynyddu gwariant mewn siopau lleol a bwytai) yn Llanfairpwll. Disgwylir y bydd y cyfleusterau presennol fel gwasanaethau sydd ar gael yn Llanfairpwll ac aneddiadau cyfagos Porthaethwy a Bangor yn gallu darparu ar gyfer poblogaeth y datblygiad arfaethedig.</p>			
I ba raddau y bydd y datblygiad yn cael effaith gadarnhaol neu	Fel uchod.	0	4	0

## Aseiad o'r Effaith ar yr Iaith Gymraeg

ANSAWDD BYWYD GAN GYNNWYS SEILWAITH CYMUNEDOL	Ystyried yr effeithiau posibl	Sgôr		
Esboniwch, gyda thystiolaeth lawn, sut mae'r datblygiad yn effeithio ar ansawdd bywyd y gymuned (amwynderau cyhoeddus a chyfleusterau a gwasanaethau cymunedol).		Effaith	Tebygolrwydd	Sgôr gyfansawdd
negyddol ar gyfleusterau neu wasanaethau presennol?				
Sut bydd y datblygiad yn cynnal neu'n creu cyfleoedd newydd i hyrwyddo'r Gymraeg mewn cyfleusterau a gwasanaethau lleol fel neuaddau, siopau ac yn y blaen?	Gan fod y datblygiad ar gyfer 27 o dai preswyl, nid yw'n debygol o greu cyfleoedd newydd i hyrwyddo'r Gymraeg yn yr ardal.	0	4	0
A oes gan y datblygiad y potensial i gael effaith gadarnhaol neu negyddol ar weithgareddau gwahanol grwpiau sy'n weithredol yn y gymuned a nodwyd yn y gwaith proffilio, e.e. sefydliadau meithrin, yr Urdd, grwpiau gwirfoddol? Beth yw gallu	<p>Mae'r datblygiad arfaethedig ar gyfer anheddau fforddiadwy i bobl leol, ac felly gellir disgwyl y byddai cyfran o'r boblogaeth newydd yn chwilio am grwpiau a mudiadau lleol i ymuno â hwy. O ystyried y byddai'r boblogaeth newydd yn bobl leol yn barod, a bod cyfran uchel o siaradwyr Cymraeg yn Llanfairpwll, nid oes disgwyl y byddai ychwanegu pobl newydd yn cael unrhyw effeithiau negyddol ar y defnydd o'r Gymraeg o fewn y grwpiau hyn.</p> <p>Hefyd, gan fod y datblygiad ar gyfer 27 o anheddau yn unig, nid oes disgwyl iddo arwain at nifer sylweddol o bobl yn chwilio am grwpiau a sefydliadau lleol. Mae'n</p>	0	4	0

## Asesiad o'r Effaith ar yr Iaith Gymraeg

ANSAWDD BYWYD GAN GYNNWYS SEILWAITH CYMUNEDOL	Ystyried yr effeithiau posibl	Sgôr		
Esboniwch, gyda thystiolaeth lawn, sut mae'r datblygiad yn effeithio ar ansawdd bywyd y gymuned (amwynderau cyhoeddus a chyfleusterau a gwasanaethau cymunedol).		Effaith	Tebygolrwydd	Sgôr gyfansawdd
darparwyr lleol i ymdopi â'r newid?	rhesymol disgwyl mai dim ond cyfran o'r boblogaeth newydd fyddai'n ceisio ymuno â grwpiau o'r fath.			
Sut gallai'r gymuned Gymreig a'i sefydliadau integreiddio'r datblygiad?	Gan fod y datblygiad ar gyfer 27 o anheddau fforddiadwy i bobl leol, ni ystyrir bod angen integreiddio'r datblygiad.	0	4	0
<p><b>Effaith ar ansawdd bywyd gan gynnwys seilwaith cymunedol dros 20 mlynedd</b></p> <p>Ar sail yr ystyriaethau a gyflwynir uchod, byddai disgwyl i'r datblygiad arfaethedig gael effaith fach iawn ar ansawdd bywyd gan gynnwys seilwaith cymunedol dros 20 mlynedd. Mae digon o gapasiti yn yr ysgolion lleol i ddarparu ar gyfer y disgyblion arfaethedig a gynhrychir gan y datblygiad arfaethedig. Byddai'r cynnig yn cefnogi'r twf a gynigir yn y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd yn ardal y Cynllun heb arwain at alw a fyddai'n cael effaith niweidiol ar y seilwaith, y gwasanaethau a'r cyfleusterau cymunedol y gellid eu cynnig i'r boblogaeth leol. Byddai hyn yn effaith fanteisiol o ran ansawdd bywyd. Fodd bynnag, nid oes disgwyl i'r cynnig arwain at newid yn nifer y siaradwyr Cymraeg a ragwelir.</p>				

## Asesiad o'r Effaith ar yr Iaith Gymraeg

*Tabl 5.11 Asesiad o'r effaith ar y farchnad dai*

Y FARCHNAD DAI	Ystyried yr effeithiau posibl	Sgôr		
Esboniwch, gyda thystiolaeth, sut mae'r datblygiad yn debygol o effeithio ar y farchnad dai yn yr ardal yn awr ac yn y dyfodol, ac yn benodol o ran cyfrannu neu effeithio ar y cyfansoddiad ieithyddol.		Effaith	Tebygolrwydd	Sgôr gyfansawdd
Pris disgwyledig y farchnad ar gyfer y tai a sut mae hyn yn cymharu ag incwm aelwydydd yn lleol	Byddai'r anheddau arfaethedig yn unedau fforddiadwy, a fyddai'n fforddiadwy i berson lleol ac yn aros felly am byth.	0	4	0
A fyddai'r datblygiad yn debygol o gael effaith gadarnhaol neu negyddol ar bris cyfartalog tai yn yr ardal yr effeithir arni?	Fel uchod.	0	4	0

## Asesiad o'r Effaith ar yr Iaith Gymraeg

Y FARCHNAD DAI	Ystyried yr effeithiau posibl	Sgôr		
Esboniwch, gyda thystiolaeth, sut mae'r datblygiad yn debygol o effeithio ar y farchnad dai yn yr ardal yn awr ac yn y dyfodol, ac yn benodol o ran cyfrannu neu effeithio ar y cyfansoddiad ieithyddol.		Effaith	Tebygolrwydd	Sgôr gyfansawdd
Cyfraniad tai fforddiadwy a sut mae hyn yn cymharu â gofynion polisi.	<p>Gan fod pob annedd yn cael ei chynnig fel unedau fforddiadwy, ac mae safle'r cais arfaethedig y tu allan i ffin ddatblygu Llanfairpwll ond yn cyffinio â hi, gellir ystyried bod y datblygiad yn safle eithriad o dan bolisi TAI 16 y CDLIC.</p> <p>Mae Polisi TAI 16 yn caniatáu i gynigion ar gyfer cynlluniau tai fforddiadwy 100% ar safleoedd sy'n cyffinio â ffiniau datblygu sy'n ffurfio estyniad rhesymol i'r anheddiad gael eu caniatáu, ar yr amod bod angen lleol wedi'i brofi am dai fforddiadwy na ellir yn rhesymol eu cyflawni o fewn amserlen resymol ar safle marchnad y tu mewn i'r ffin ddatblygu.</p> <p>Fel y darperir yn y datganiad hwn, yn ogystal ag yn y Datganiad Dylunio, Mynediad a Chynllunio a gyflwynwyd gyda'r cais hwn, byddai'r datblygiad arfaethedig yn bodloni gofynion Polisi TAI 16 i'w ystyried fel safle eithriad ac felly byddai darparu 27 o anheddau fforddiadwy yn cyd-fynd â pholisi.</p>	0	4	0
Cyfradd ddatblygu ddisgwyliedig neu arfaethedig. A fyddai'n digwydd yn araf?	Mae'r cynnig yn ymwneud â datblygu 27 o anheddau ac felly bydd yr unedau'n cael eu datblygu mewn un cam dros gyfnod o flwyddyn i ddwy flynedd.	0	4	0
		0	4	0



## Asesiad o'r Effaith ar yr Iaith Gymraeg

Y FARCHNAD DAI	Ystyried yr effeithiau posibl	Sgôr		
Esboniwch, gyda thystiolaeth, sut mae'r datblygiad yn debygol o effeithio ar y farchnad dai yn yr ardal yn awr ac yn y dyfodol, ac yn benodol o ran cyfrannu neu effeithio ar y cyfansoddiad ieithyddol.		Effaith	Tebygolrwydd	Sgôr gyfansawdd
Cymysgedd tai a sut mae'n cymharu â gofynion polisi, arolygon sirol neu leol, neu ffynonellau gwybodaeth eraill.	<p>Mae manylion yr angen am dai a'r angen a ganfuwyd am dai wedi'u cyflwyno yn y Datganiad hwn.</p> <p>Bydda nifer a math yr unedau a gynigir yn cyfrannu at ddiwallu angen a nodwyd yn Llanfairpwll. Mae'r tîm Strategaeth Tai yn y Cyngor yn cefnogi'r gymysgedd arfaethedig.</p>			
Niferoedd tai a sut mae hyn yn cymharu â'r galw am dai a'r cyflenwad tai a nodir yn y Cynllun, a'r caniatâd a roddwyd ers mabwysiadu'r Cynllun.	Byddai'r cynnig yn arwain at ddatblygu 27 o anheddau fforddiadwy a byddai'n diwallu'r angen lleol am dai a nodwyd yn y Datganiad hwn.	0	4	0
Yr effaith gynyddol bosibl y gallai'r datblygiad ei chael, gan ystyried unrhyw ddatblygiadau diweddar perthnasol eraill yn yr ardal leol	Byddai nifer a math yr unedau a gynigir yn cyfrannu at ddiwallu angen a nodwyd yn Llanfairpwll, gan ddarparu tai i bobl leol yn unig. Ni ellir diwallu'r angen presennol am anheddau fforddiadwy o fewn cyfnod rhesymol ar dir o fewn y ffin datblygu (drwy'r dyraniad tai sy'n weddill neu ar hap-safleoedd eraill) ac nid oes safleoedd eraill mwy addas y tu allan ond yn cyffinio'n uniongyrchol â'r ffin ddatblygu a allai ddarparu anheddau fforddiadwy i ddiwallu'r angen a nodwyd.	0	4	0

## Asesiad o'r Effaith ar yr Iaith Gymraeg

Y FARCHNAD DAI	Ystyried yr effeithiau posibl	Sgôr		
Esboniwch, gyda thystiolaeth, sut mae'r datblygiad yn debygol o effeithio ar y farchnad dai yn yr ardal yn awr ac yn y dyfodol, ac yn benodol o ran cyfrannu neu effeithio ar y cyfansoddiad ieithyddol.		Effaith	Tebygolrwydd	Sgôr gyfansawdd
A fyddai'r datblygiad yn cynyddu'r galw am dai rhent preifat, a fyddai'n golygu bod llai o stoc ar gael i aelwydydd lleol?	Byddai'r cynnig ar gyfer unedau fforddiadwy yn unig ac felly byddai'n cynyddu'r stoc dai sydd ar gael i bobl leol, a gallai hefyd ryddhau llety yn y sector rhentu preifat wrth i feddianwyr symud i lety perchen-feddiannaeth.	0	4	0
<b>Effaith y datblygiad arfaethedig ar y farchnad dai dros 20 mlynedd</b>				
Byddai'r cynllun yn darparu 27 o unedau preswyl, a byddai pob un ohonynt yn dai fforddiadwy. Mae'r cymysgedd a'r deiliadaethau arfaethedig yn ceisio cyfrannu at ddiwallu'r angen a ganfuwyd am dai yn Llanfairpwll. Yn gyffredinol, disgwylir i'r datblygiad arfaethedig arwain at effaith fanteisiol fach ar y Gymraeg wrth ystyried y farchnad dai gan y byddai'n darparu 27 o dai fforddiadwy i bobl leol, yn y lle cyntaf ac am byth. Heb y datblygiad hwn, efallai y bydd yn rhaid i bobl leol adael yr ardal i ddiwallu eu hangen am dai.				

## Asesiad o'r Effaith ar yr Iaith Gymraeg

**Tabl 5.12 Asesiad o'r effaith ar ffactorau economaidd**

FFACTORAU ECONOMAIDD	Ystyried yr effeithiau posibl	Sgôr		
Esboniwch, gyda thystiolaeth, sut mae'r datblygiad yn effeithio ar economeg yr ardal leol.		Effaith	Tebygolrwydd	Sgôr gyfansawdd
Sut mae'r datblygiad yn cyfrannu at gyfleoedd cyflogaeth presennol yn yr ardal.	Mae'r cynllun ar gyfer tai, ac er y byddai'r cynllun yn cynnig cyfleoedd cyflogaeth yn ystod y cam adeiladu a rhywfaint o waith cynnal a chadw ar ôl ei gwblhau, ystyrir bod y mater allweddol hwn yn fwy perthnasol i ddatblygiadau masnachol a chyflogaeth, yn hytrach na datblygiadau tai.	0	4	0
A yw'n hyrwyddo amrywiaeth economaidd yn yr ardal leol, h.y. creu swyddi nad ydynt ar gael yn lleol?	Byddai'r cynnig yn cael ei ddatblygu gan gwmni adeiladu lleol, DU Construction, sydd wedi'i leoli ar Ynys Môn. Felly, yn y tymor byr, byddai'r cynnig yn darparu cyfleoedd cyflogaeth gefnogol i gwmni lleol, sy'n cyflogi pobl leol, gan gynnwys siaradwyr Cymraeg.	0	4	0
Nifer y swyddi llawn amser a/neu ran amser.		0	4	0
Sgiliau sy'n angenrheidiol ar gyfer y busnes neu'r sefydliad a sut mae hynny'n cymharu â sgiliau llafur pobl leol (yn yr ardal teithio i'r gwaith).		0	4	0

## Aseiad o'r Effaith ar yr Iaith Gymraeg

FFACTORAU ECONOMAIDD	Ystyried yr effeithiau posibl	Sgôr		
Esboniwch, gyda thystiolaeth, sut mae'r datblygiad yn effeithio ar economeg yr ardal leol.		Effaith	Tebygolrwydd	Sgôr gyfansawdd
Cyflogau a gynigir a sut mae hynny'n cymharu â chyflogau cyfartalog yn yr ardal.	Mae'r cynnig ar gyfer tai, ac felly nid yw'r ystyriaeth hon yn berthnasol.	0	4	0
Sgiliau llafur pobl leol (yn yr ardal teithio i'r gwaith) a'r tebygolrwydd yn ôl yr aseiad uchod y bydd y swyddi'n cael eu llenwi o blith y boblogaeth leol.	Gweler uchod.	0	4	0
A yw'n debygol y bydd angen i chi chwilio y tu allan i'r ardal leol am weithwyr, e.e. i gaffael sgiliau arbenigol?		0	4	0
A fydd gwasanaeth rheng flaen yn cael ei ddarparu i'r cyhoedd?	Mae'r cynnig ar gyfer tai, ac felly nid yw'r ystyriaeth hon yn berthnasol.	0	4	0

## Asesiad o'r Effaith ar yr Iaith Gymraeg

FFACTORAU ECONOMAIDD	Ystyried yr effeithiau posibl	Sgôr		
Esboniwch, gyda thystiolaeth, sut mae'r datblygiad yn effeithio ar economeg yr ardal leol.		Effaith	Tebygolrwydd	Sgôr gyfansawdd
Pa sgiliau iaith sy'n hanfodol ac yn ddymunol ar gyfer y swyddi sy'n cael eu creu gan y datblygiad? Bydd angen diffinio'r rhain fel rhan o gynllun iaith Gymraeg y datblygiad (gwirfoddol neu statudol)	Byddai'r cynnig yn darparu cyfleoedd cyflogaeth i'r sector adeiladu presennol. Gan fod disgwyl i'r gwaith llafur adeiladu gael ei gyflawni'n lleol gan DU Construction, byddai disgwyl i'r llafurlu adeiladu lleol gynnwys rhai siaradwyr Cymraeg a byddent yn ymwybodol o rôl hanfodol y Gymraeg yn y gymuned leol.	0	4	0
Sgiliau iaith a fydd yn angenrheidiol i integreiddio i'r gymuned leol, h.y. pa iaith fyddai'n angenrheidiol ar gyfer gwahanol fathau o swyddi.	Gan fod disgwyl i'r gwaith llafur adeiladu gael ei gyflawni'n lleol, byddai disgwyl i'r llafurlu adeiladu lleol gynnwys rhai siaradwyr Cymraeg a byddent yn ymwybodol o rôl hanfodol y Gymraeg yn y gymuned leol.	0	4	0
Yr effaith gynyddol bosibl y gallai'r datblygiad ei chael, gan ystyried unrhyw ddatblygiadau diweddar perthnasol eraill yn yr ardal leol	Y cynnig yw datblygu 27 o anheddau, ac o ystyried maint y gwaith adeiladu, nid oes unrhyw arwydd nad oes digon o gapasiti yn y farchnad lafur adeiladu i ymgymryd â'r gwaith hwn, ynghyd â datblygiadau tebyg eraill ar Ynys Môn ac yng Ngwynedd.	0	4	0

## Asesiad o'r Effaith ar yr Iaith Gymraeg

FFACTORAU ECONOMAIDD	Ystyried yr effeithiau posibl	Sgôr		
Esboniwch, gyda thystiolaeth, sut mae'r datblygiad yn effeithio ar economeg yr ardal leol.		Effaith	Tebygolrwydd	Sgôr gyfansawdd
A yw'r datblygiad yn debygol o gael effaith gadarnhaol ar fusnesau lleol presennol, e.e. drwy gynnig cyfleoedd busnes i gyflenwi gofynion y busnes newydd am nwyddau?	Mae'r cynnig ar gyfer tai, ac felly nid yw'r ystyriaeth hon yn berthnasol.	0	4	0
<p><b>Effaith y datblygiad arfaethedig ar gyflogaeth dros 20 mlynedd</b></p> <p>Er bod y cynnig yn ymwneud â thai, mae hefyd yn gyfle i gyfrannu'n fanteisiol at gyflogaeth leol i'r diwydiant adeiladu lleol. Mae'r cyfleoedd cyflogaeth a gynigir fel rhan o'r datblygiad o fudd i bobl leol gan gynnwys siaradwyr Cymraeg, fodd bynnag nid oes disgwyl i'r rhain arwain at newid yn nifer y siaradwyr Cymraeg ac felly disgwylir effaith niwtral ar gyflogaeth.</p>				

## Crynodeb o'r canfyddiadau a chasgliadau

5.65 Byddai'r datblygiad arfaethedig yn darparu 27 o anheddau fforddiadwy.

### Diwallu angen a ganfuwyd am dai

5.66 Roedd yr angen am dai a nodwyd yn gynharach yn adran hon yr adroddiad yn nodi bod angen penodol, yn enwedig ar gyfer tai cymdeithasol un a dwy ystafell wely, ac anheddau canolradd dwy a thair ystafell wely yn Llanfairpwll. Byddai darparu anheddau â phedair ystafell wely hefyd yn cyfrannu at yr angen a nodwyd am dai ar gyfer anheddau mwy.

5.67 Byddai'r cymysgedd tai arfaethedig yn cyd-fynd â'r angen hwn a byddai darparu 27 o anheddau fforddiadwy yn cyfrannu at y cyflenwad tai fforddiadwy yn yr ardal.

5.68 Felly, byddai'r datblygiad arfaethedig yn darparu tai addas i helpu i ateb y galw am dai yn yr ardal leol, gan annog pobl leol i aros yn yr ardal leol gan y byddai modd diwallu eu hanghenion tai yn lleol. Byddai'r cymysgedd o dai yn cyfrannu at gynnal cymunedau cynaliadwy lle gall y Gymraeg ffynnu.

5.69 Mae darparu tai yn y lleoliad hwn yn cynnig y posibilrwydd o leoli pobl leol o fewn cyrraedd hawdd i Lanfairpwll, yn ogystal ag aneddiadau cyfagos fel Porthaethwy a Bangor, a'r holl wasanaethau a chyfleusterau a ddarperir yno. Mae hyn yn lleihau'r angen i fod yn ddibynnol ar drafnidiaeth gyhoeddus neu fod yn berchen ar gar.

### Effaith fanteisiol ar elfennau gweledol y Gymraeg

5.70 Disgwylir i'r cynnig gyfrannu'n fuddiol at elfennau gweledol y Gymraeg yn yr ardal leol.

### Cyflogaeth

5.71 Er bod y cynnig yn ymwneud â thai, mae hefyd yn gyfle i gyfrannu'n fanteisiol at gyflogaeth leol yn ystod y cam adeiladu, gan gefnogi busnesau adeiladu lleol.

## 6. Asesiad cynaliadwyedd

6.1 Mae'r CCA mabwysiedig yn mynnu bod yr AEIG yn ystyried effaith debygol y datblygiad ar amcanion asesu cynaliadwyedd a darperir asesiad cyffredinol yn Nhabl 6.1.

*Tabl 6.1 Asesiad Cynaliadwyedd*

Amcanion Asesiad Cynaliadwyedd	Asesiad	Crynodeb
<p>1. Cynnal a gwella manteision a chysylltedd bioamrywiaeth (pynciau AEA: bioamrywiaeth, ffawna, fflora, pridd)</p> <p>A fydd y datblygiad arfaethedig yn...</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Diogelu uniondeb safleoedd dynodedig (rhyngwladol, cenedlaethol a lleol), ac osgoi cynefinoedd/rhywogaeth gwasgaredig</li> <li>• Diogelu a gwella cynefinoedd bywyd gwyllt ar y tir ac ar y môr (gan gynnwys yr ased coetir sylweddol a geir yn ardal y cynllun), a bioamrywiaeth ehangach mewn ardaloedd gwledig a threfol</li> <li>• Cynnal a gwella'r ddarpariaeth seilwaith gwyrdd</li> <li>• Diogelu a gwella'r safleoedd daearegol dynodedig a'r tir amrywiaeth ehangach</li> <li>• Cynnal a gwella rôl cysylltedd ecolegol</li> </ul>	+	<p>Mae Asesiad Ecolegol Rhagarweiniol yn cyd-fynd â'r cais sy'n nodi bod y cynefin ar safle'r cais yn cael ei ddominyddu gan laswelltir sydd wedi'i wella'n sylweddol ond bod potensial i'r datblygiad effeithio ar goed a gwrychoedd sydd wedi gordyfu ar y safle.</p> <p>Ni chofnodwyd unrhyw rywogaethau a warchodir yn ystod yr arolwg ond mae potensial i adar sy'n nythu fod yn bresennol yn y gwrychoedd a gedwir ar yr adeg briodol o'r flwyddyn. Mae'r llain o goetir ar hyd ffin gogledd orllewinol y safle yn darparu cysylltedd da ar gyfer ystlumod sy'n chwilota am fwyd ac mae potensial hefyd i ddraenogod a gwiwerod coch fod yn bresennol mewn llystyfiant ar y safle.</p> <p>Cynigir gwella bioamrywiaeth drwy gynllunio'r dirwedd sy'n cynnwys rhywogaethau sydd o fudd i fywyd gwyllt a darparu tiwbiau ystlumod fel rhan annatod o wead rhai o'r anheddau arfaethedig ynghyd â darparu blychau adar ar ddrychiadau</p>



## Asesiad o'r Effaith ar yr Iaith Gymraeg

		<p>priodol a ffensys sy'n gyfeillgar i ddraenogod. Mae'r rhain wedi cael eu hymgorffori yn y dyluniad ac maent yn cael eu nodi ar y gweddlluniau a'r cynlluniau safle perthnasol.</p>
<p>2. Hyrwyddo hyfywedd, cydlyniant, ac iechyd a lles cymunedol (pynciau anghydraddoldeb cymdeithasol: iechyd pobl, poblogaeth).</p> <p>A fydd y datblygiad arfaethedig yn...</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Diwallu anghenion poblogaeth sy'n heneiddio</li> <li>• Lleihau nifer y bobl oedran gweithio sy'n allfudo, er mwyn cefnogi cymunedau sy'n gytbwys o ran oedran y boblogaeth</li> <li>• Gwella'r ddarpariaeth a mynediad at gyfleusterau a gwasanaethau i gymunedau difreintiedig ac ardaloedd gwledig.</li> <li>• Hyrwyddo rhyngweithio cymunedol a chynhwysiant cymdeithasol</li> <li>• Cael gwared ar rwystrau a chreu cyfleoedd i bobl fyw bywydau iachach, e.e. hyrwyddo ymarfer corff (cerdded, beicio)</li> <li>• Lleihau anghydraddoldebau iechyd rhwng ardaloedd a grwpiau cymdeithasol</li> </ul>	+	<p>Gweler tabl 5.8 yr AEIG hwn.</p>
<p>3. Diogelu, hyrwyddo a chryfhau'r Gymraeg (testun SEA: treftadaeth ddiwylliannol).</p> <p>A fydd y datblygiad arfaethedig yn...</p>	+	<p>Gweler Adran 5 yr AEIG hwn.</p>

## Asesiad o'r Effaith ar yr Iaith Gymraeg

<ul style="list-style-type: none"> <li>• Diogelu a gwella'r cyfleoedd i hyrwyddo a datblygu'r Gymraeg.</li> </ul>		
<p>4. Gwarchod, hyrwyddo a gwella adnoddau diwylliannol ac asedau treftadaeth hanesyddol (pwnc SEA: treftadaeth ddiwylliannol).</p> <p>A fydd y datblygiad arfaethedig yn...</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Sicrhau bod asedau lleol, hanesyddol, archeolegol a diwylliannol (gan gynnwys diogelu rhag datblygiadau newydd) yn cael eu gwarchod, ac yn cael eu defnyddio i'r eithaf er budd trigolion ac ymwelwyr</li> <li>• Hyrwyddo mynediad i'r amgylchedd hanesyddol at ddibenion addysg a thwristiaeth/datblygu economaidd</li> </ul>	+	<p>Nid oes disgwyl i'r cynnig gael unrhyw effaith ar asedau treftadaeth lleol na'r amgylchedd hanesyddol.</p>
<p>5. Cefnogi twf economaidd a hwyluso economi fywiog ac amrywiol sy'n darparu cyfleoedd cyflogaeth lleol (testun SEA: Poblogaeth)</p> <p>A fydd y datblygiad arfaethedig yn...</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Hyrwyddo a hwyluso buddsoddiad i fusnesau lleol ar draws amrywiaeth o sectorau economaidd</li> <li>• Gwella a manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd cyflogaeth, gan gynnwys mewn ardaloedd gwledig</li> <li>• Cefnogi'r diwydiant twristiaeth drwy wneud gwelliannau amgylcheddol a gwella'r seilwaith, a helpu i wella'r adnoddau a'r seilwaith presennol</li> </ul>	+	<p>Gweler tabl 5.12 yr AEIG.</p>

## Asesiad o'r Effaith ar yr Iaith Gymraeg

<ul style="list-style-type: none"> <li>• Darparu mynediad at gyfleoedd hyfforddiant, addysg a datblygu sgiliau ar gyfer pob sector yn y gymuned</li> <li>• Trin y Gymraeg yn llai ffafrinol na'r Saesneg wrth ddarparu gwasanaethau i'r cyhoedd</li> <li>• Creu cyfleoedd i weithwyr ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithle</li> </ul>		
<p>6. Darparu tai o ansawdd da, gan gynnwys tai fforddiadwy sy'n diwallu angen lleol (testun SEA: poblogaeth, iechyd dynol).</p> <p>A fydd y datblygiad arfaethedig yn...</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Gwella ansawdd ac argaeledd y stoc dai bresennol ar gyfer cymunedau difreintiedig</li> <li>• Darparu tai mwy fforddiadwy a chynaliadwy gyda'r effaith amgylcheddol leiaf posibl mewn ardaloedd gwledig a threfol</li> <li>• Cyflwyno tai wedi'u haddasu sy'n rhoi sylw i anghenion unigol y cymunedau</li> </ul>	+	Gweler Adran 5 yr AEIG.
<p>7. Gwerthfawrogi, gwarchod a gwella tirweddau gwledig a threfluniau ardal y cynllun (testun SEA: tirwedd)</p> <p>A fydd y datblygiad arfaethedig yn...</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Diogelu a gwella nodweddion arbennig y dirwedd yn ardal y cynllun, gan gynnwys Ardaloedd o</li> </ul>	+	<p>Nid yw safle'r cais arfaethedig wedi'i leoli mewn Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol, Ardal Tirwedd Arbennig nac unrhyw ardal tirwedd warchoddedig.</p> <p>Byddai'r safle arfaethedig yn estyniad naturiol i ffurf adeiledig bresennol stryd breswyl Y Garnedd, a byddai'n ymddangos fel rhan o'r ardal breswyl ehangach yn yr ardal.</p>

## Asesiad o'r Effaith ar yr Iaith Gymraeg

<p>Harddwch Naturiol Eithriadol, tirwedd arfordirol/môr a threfwedd</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Diogelu a gwella ansawdd mannau agored sy'n hygyrch i'r cyhoedd mewn amgylchedd gwledig ac adeiledig</li> <li>• Sicrhau bod datblygiadau newydd yn cael eu hintegreiddio'n briodol ac yn sensitif i gymeriad tirwedd a threfwedd ardal y cynllun</li> </ul>		<p>Mae'r cais yn cynnwys darparu ardal o ofod agored anffurfiol y tu ôl i erddi plotiau 14 i 27, sy'n 580 metr sgwâr ynghyd â'r ardal i'r de o'r pen troi rhwng plotiau 11 a 12. Ni chynigir unrhyw offer chwarae ffurfiol ar y safle a chynigir cyfraniad ariannol tuag at ddarpariaeth oddi ar y safle ynghyd â chyfraniad ariannol tuag at ddarpariaeth chwaraeon awyr agored.</p>
<p>8. Cefnogi a gwella cysylltiadau trafndiaeth da i gefnogi'r gymuned a'r economi (testun SEA: poblogaeth, iechyd dynol).</p> <p>A fydd y datblygiad arfaethedig yn...</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Gwella hygyrchedd mewn ardaloedd lleol, drwy gysylltu rhwydweithiau trafndiaeth (trafnidiaeth gyhoeddus a heb fod yn drafnidiaeth gyhoeddus) â chanolfannau gwasanaeth</li> <li>• Lleihau'r angen i deithio mewn ceir preifat, drwy wella'r seilwaith trafndiaeth gyhoeddus</li> <li>• Blaenoriaethu hygyrchedd drwy gael opsiynau trafndiaeth gynaliadwy ar gyfer datblygiadau newydd</li> </ul>	+	<p>Mae hygyrchedd y safle wedi'i asesu yn adran 5 yr AEIG hwn o dan y 'Proffil Seilwaith Lleol'. Er na fyddai'r cynnig ei hun yn gwella nac yn uwchraddio cysylltiadau trafndiaeth, mae'r safle'n hygyrch i amrywiaeth o gyfleusterau a chyrchfannau ar droed, ar feic ac ar drafnidiaeth gyhoeddus yn unol â'r polisiau trafndiaeth cenedlaethol a lleol.</p>

## 7. Mesurau lliniaru a gwella

- 7.1 Mae'r ystyriaeth i effeithiau'r datblygiad arfaethedig ar y Gymraeg a'r gymuned a gyflwynir yn adran 5 wedi nodi effaith fanteisiol gyffredinol, gan y byddai'n caniatáu i bobl leol ddiwallu'r angen a nodwyd ganddynt am dai yn lleol ac felly'n caniatáu iddynt barhau i fyw yn yr ardal.
- 7.2 Ar y cyfan, cynigir y mesurau gwella canlynol fel rhan o'r cynnig:
- Ymrwymiad i'r gwaith adeiladu gael ei wneud gan adeiladwr tai lleol sy'n defnyddio contractwyr lleol; ac
  - Ymrwymiad i ddarparu enw Cymraeg ar gyfer y datblygiad.

## 8. Casgliad

- 8.1 Daethpwyd i'r casgliad y byddai'r datblygiad arfaethedig yn cael effaith fanteisiol gyffredinol ar y Gymraeg a'r gymuned yn Llanfairpwll drwy ddarparu tai fforddiadwy i ddiwallu angen a nodwyd am bris a fyddai'n fforddiadwy i bobl leol.

# Atodiad A

## SIONED ELIN EDWARDS

### MAES ARBENIGEDD

Wyth mlynedd o brofiad o gynllunio gan weithio fel ymgynghorydd cynllunio preifat.

- Aseiad o'r Effaith ar Gymunedau ac Iaith ar gyfer cynigion yng Nghymru;
- Apeliadau cynllunio;
- Datblygiadau tai a defnydd cymysg;
- Datblygiadau twristiaeth a hamdden;
- Ymgynghori a rheoli prosiectau;
- Arfarniadau Cynllunio a Datblygu;
- Negodi Adran 106.

---

### SEFYDLIADAU PROFFESIYNOL

- Aelod Siartredig o'r Sefydliad Cynllunio Trefol Brenhinol (RTPI)

---

### CYMWYSTERAU

- BA (Anrh) Daearyddiaeth
- MSc (Rhagoriaeth) Cynllunio, Ymarfer ac Ymchwil

---

### PROFIAD GWAITH PERTHNASOL

- Gan weithio ochr yn ochr â Chyfarwyddwr Cadnant Planning, Rhys Davies, mae Sioned wedi bod yn brif awdur Aseiad o'r Effaith ar yr Iaith Gymraeg Wylfa Newydd ers 2011, gan arwain ar drafodaethau â rhanddeiliaid a'r Grŵp Llywio ynghylch y Gymraeg a'i diwylliant. Mae Sioned wedi gweithio'n agos gydag Arad Research ar ddatblygu'r Strategaeth Gwella a Lliniaru yng nghyswllt yr Iaith Gymraeg a'i Diwylliant (WLCMES).
- Tyst arbenigol i'r Iaith Gymraeg a'i Diwylliant mewn perthynas â datblygiad Wylfa Newydd mewn Gwrandawiadau DCO ar ran Horizon Nuclear Power.
- Prif awdur yr Aseiad o'r Effaith ar yr Iaith Gymraeg a'r Datganiad Lliniaru ar gyfer datblygiadau preswyl (cynlluniau o hyd at 154 o anheddau) yng Nghonwy a Sir Ddinbych ar gyfer adeiladwyr tai preifat.
- Prif awdur yr AEIG ar gyfer datblygiad defnydd cymysg ar gyfer 54 o unedau preswyl ac arwynebedd llawr masnachol yng Nghonwy a datblygiadau gwestai a hamdden yn Ynys Môn a Gwynedd.
- Prif awdur yr AEIG ar gyfer Paratoi a Chlirio Safle Wylfa Newydd.
- Prif awdur yr AEIG ar gyfer Gwelliannau Ar-lein i Briffordd yr A5025.



# CADNANT

PLANNING

---

**Conwy** | 20 Tŷ Connaught, Parc Busnes Riverside, Ffordd Benarth, Conwy LL32 8UB  
| 01492 581800

**Chester** | Bretton House, Bell Meadow Business Park, Pulford, Chester CH4 9EP  
| 01244 621007

[www.cadnantplanning.co.uk](http://www.cadnantplanning.co.uk)